wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

wavehill.com

# Asesiad o Effaith Economaidd a Chymdeithasol Gweithgareddau S4C yn 2022/23



S4C

# Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd

Ein swyddfeydd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa gorllewin Lloegr: St Nicholas House, 31-34 High Street, BS1 2AW
- Swyddfa gogledd Lloegr: The Corner, 26 Mosley Street, Newcastle, NE1 1DF
- Swyddfa Llundain: 2.16 Oxford House, 49 Oxford Road, London, N4 3EY

Manylion cyswllt

Ffôn: 0330 1228658

E-bost: wavehill@wavehill.com

Twitter: @wavehilltweets

Mwy o wybodaeth

www.wavehill.com

https://twitter.com/wavehilltweets

© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r adroddiad hwn yn destun hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.

Awduron yr adroddiad

Endaf Griffiths, Michael Pang, Rhys Maher, Huw Lloyd-Williams, a Paula Gallagher

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn y lle cyntaf at Endaf Griffiths: endaf.griffiths@wavehill.com

Dyddiad y ddogfen: Tachwedd 2023

Fersiwn: Terfynol

Manylion y cleient

Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Bwrdd, S4C

# Tudalen gynnwys


Crynodeb Gweithredol....1
1. Ynglŷn â'r Adroddiad Hwn....5
Amcanion Ymchwil Allweddol....5
Ein Dulliau Asesu....5
Ffurf yr Adroddiad....6
2. S4C: Y Sefydliad....7
Datganiad Polisi Cyfraniad Cymdeithasol S4C....10
3. Effaith Economaidd S4C yn 2022/23....11
Asesu Effaith Economaidd....11
Gwerth Uniongyrchol S4C....12
Gwariant S4C a'i Chadwyn Gyflenwi....12
Effaith Cyflogau....15
Effaith Ymwelwyr....16
Cyfanswm Effaith Economaidd Gweithgareddau S4C yn 2022/23....16
4. Ôl Troed Economaidd S4C....22
Datblygu'r Sector a'r Gadwyn Gyflenwi....22
Hybu Talent a Datblygu Sgiliau....27
Twristiaeth a Hyrwyddo....30
Manteision i'r Sector Cyhoeddus....31
5. Cyfraniadau S4C i'r Gymraeg....32
Normaleiddio ac Adfywio'r Gymraeg....32
Eiriolaeth a Mentrau Cymraeg....34
Dysgu ac Addysgu'r Gymraeg....34
Dyrchafu'r Gymraeg i'r Llwyfan Byd-eang....35
6. Ôl Troed Cymdeithasol ac Ehangach S4C....37
Ymgysylltu â'r Gymuned a Chydlyniant Cymunedol....37
Hunaniaeth a Balchder Cymreig....39
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant....40
Ysbrydoli ac Addysgu....41
Adloniant a Lles....43
Amgylcheddol a Chynaliadwyedd....44

Atodiad A: Geirfa....47
Atodiad B: Cyfeiriadau....48
Atodiad C: Rhestr o Ymgyngoreion....52
Atodiad D: Dulliau Asesu'r Effaith....53
Ardal yr Effaith....53
Mesurau o Fudd Economaidd....53
Cyfyngiadau Allweddol y Dull Gweithredu....55

# Crynodeb Gweithredol

Ers ei darllediad cyntaf ym 1982, mae S4C wedi esblygu o fod yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus arloesol Cymraeg, a'r pedwerydd sianel deledu ddaearol hynaf ym Mhrydain, i fod yn angor economaidd a chymdeithasol cenedlaethol cydnabyddedig gydag allbynnau a chyfrifoldebau sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i un sianel.

Gwnaeth S4C gomisiynu Wavehill i gynnal asesiad o effaith economaidd a chymdeithasol ei gweithgareddau yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Mae'r asesiad hwn wedi digwydd ar adeg dyngedfennol i S4C ar ôl dathlu ei phen-blwydd yn 40 oed yn ddiweddar a rhyddhau strategaeth newydd sy'n amlinellu'r broses o bontio o fod yn ddarlledwr traddodiadol i fod yn gyhoeddwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gyda ffocws newydd ar gynnwys amlgyfrwng ac ehangu cyrhaeddiad y gwaith y mae’n ei gomisiynu. Daw'r asesiad hefyd ar adeg lle mae strwythur cyllido S4C wedi newid yn sylweddol, gan symud o fod yn ddarlledwr a ariennir gan y Llywodraeth i gael ei hariannu’n bennaf gan ffi'r drwydded.

## Rôl Economaidd S4C yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig

Mae gan S4C ôl troed sylweddol o fewn ac ar draws cymunedau lleol ledled Cymru yn ei rôl fel cyflogwr, comisiynydd a sefydliad angori o fewn diwydiant y cyfryngau yng Nghymru.

- **Cyflogwr lleol gyda swyddi o ansawdd uchel:** Mae S4C yn cyflogi 118 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) o ansawdd uchel sy’n talu’n dda, yn bennaf yng Nghaerdydd, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd a Cheredigion. Mae dros hanner y swyddi hyn wedi'u lleoli mewn ardaloedd cymharol ddifreintiedig lle mae enillion cyfartalog is na chyfartaledd Cymru a'r DU.
- **Ffigwr Amlwg yn y Gymuned Fusnes yng Nghymru:** Yn 2022/23, gwariodd S4C dros £104.5 miliwn gyda 977 o gyflenwyr yn rhychwantu 47 o sectorau gwahanol. Roedd y cyflenwyr hyn yn amrywio o gynhyrchwyr cynnwys i gyflenwyr swyddfa i gwmnïau marchnata. Cafodd tair o bob pedair punt eu cyfeirio at gyflenwyr sydd â'u pencadlys yng Nghymru neu sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. O'r £78.6m a wariwyd yng Nghymru, roedd mwy na hanner i gyflenwyr sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gaerdydd.
- **Cyfrannwr sylweddol at economi Cymru a'r Deyrnas Unedig:** Drwy ei gweithrediadau o ddydd i ddydd, gwariant ar y gadwyn gyflenwi a chyflogau, ac effaith ymwelwyr, amcangyfrifir bod gweithgareddau S4C yn 2022/23 wedi cefnogi 1,900 o swyddi FTE ac wedi cynhyrchu £135.6m mewn gwerth ychwanegol gros yng Nghymru. Mae'r effaith hon yn codi i 2,300 o swyddi a £157.2m mewn gwerth ychwanegol gros ledled y DU. Mae hyn yn awgrymu bod ychydig dros 1 o bob 7.6 swydd yn is-sector 'Ffilm, Teledu, Radio, a Cherddoriaeth' Cymru yn cael ei chefnogi gan S4C; a bod cyfanswm ei chyfraniad i werth ychwanegol gros Cymru yn cyfateb i 42% o is-sector 'Ffilm, Teledu, Radio, a Cherddoriaeth' Cymru a 0.2% o gyfanswm gwerth ychwanegol gros Cymru gyfan yn 2022.

- **Cost-effeithlon a Gwerth am Arian:** Nid yn unig y mae S4C yn un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf cost-effeithlon yn y DU, gyda chost yr awr yn sylweddol is na darlledwyr eraill, ond mae ei gweithgareddau'n cynhyrchu refeniw treth sy'n fwy na'r arian y mae'n ei dderbyn - am bob £1 punt o gyllid ffi'r drwydded y mae S4C yn ei derbyn, mae £1.02 yn cael ei gynhyrchu mewn treth i Drysorlys Ei Fawrhydi.
- **Elw Da ar Fuddsoddiad:** Am bob £1 o gyllid ffi'r drwydded a dderbyniodd S4C, cynhyrchodd y darlledwr £1.53 mewn gwerth ychwanegol gros yng Nghymru, gan godi i £1.77 yn y Deyrnas Unedig.
- **Hybu a Meithrin Talent:** Trwy ei dylanwad a'i phartneriaethau strategol ei hun â sefydliadau fel TAC, Cynghrair Sgrin Cymru, Cymru Greadigol, y BBC, ac ITV, mae S4C yn chwarae rhan ganolog wrth feithrin ac arwain tirwedd hyfforddi a phrentisiaethau sector diwylliannol Cymru. Mae S4C yn annog Datblygiad Proffesiynol Parhaus a phrentisiaethau, nid yn unig i gefnogi'r gweithlu presennol ond hefyd i feithrin talent newydd drwy gefnogi pobl ifanc i mewn i'r diwydiant, gan sicrhau sector creadigol cadarn a medrus yng Nghymru i'r dyfodol.
- **Arweinydd yn y Diwydiannau Diwylliannol a Chreadigol:** Mae S4C yn hyrwyddwr y sector ac yn meddu ar bŵer dylanwadol i hyrwyddo a lobïo polisïau gan gynnwys ei chyfraniadau at fil cyfryngau arfaethedig y Llywodraeth. Yn 2022/23, gweithiodd S4C mewn partneriaeth â 70 o gwmnïau cynhyrchu a dyrannwyd tua 80% o'i chyllideb i gomisiynu cynnwys, a chynhyrchwyd dros 98% ohono yng Nghymru.
- **Galluogi Economi Gymraeg:** Mewn arolwg, nododd cyflenwyr uniongyrchol S4C fod siarad Cymraeg yn sgil hanfodol i 75% o'u cyflogeion.

## Cyfraniadau S4C i'r Gymraeg a Gwerth Cymdeithasol

Mae S4C wedi ymrwymo i ddarparu gwerth cymdeithasol o'i gweithgareddau gan gynnwys cynhyrchu, hyrwyddo a rhaglennu ar gyfer ei chynulleidfaoedd, cymunedau lleol a phobl Cymru. Mae effeithiau cymdeithasol y cwmni yn cyd-fynd â'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, ac yn cyfrannu'n uniongyrchol atynt:

- **Eirioli dros y Gymraeg:** Mae S4C wedi mabwysiadu rôl fwy gweithredol yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy arwyddo memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Chymraeg 2050. Mae hyn yn cynnwys chwarae rhan fwy gweithredol wrth gynhyrchu adnoddau addysgol, cefnogi siaradwyr Cymraeg newydd a galluogi trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau.
- **Dyrchafu'r Gymraeg i lwyfan byd-eang:** Mae rhaglenni diweddar S4C (drama yn arbennig) wedi ennyn cynulleidfa ryngwladol, gan gynnwys Dal y Mellt – y ddrama gyntaf yn y Gymraeg yn unig i gael ei phrynu gan Netflix. Mae S4C hefyd wedi manteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg ledled y byd drwy Gwpan Pêl-droed y Byd i Ddynion a'r newid mewn perchnogaeth yng Nghlwb Pêl-droed Wrecsam.
- **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** Mae S4C wedi gosod y sylfaen i wella cynrychiolaeth Cymru yn ei chyfanrwydd, ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, drwy weithio mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Amrywiaeth Greadigol i fonitro rhywedd, oedran, hil, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol talent a'r gweithlu. Roedd S4C hefyd yn brif noddwr gŵyl Pride Cymru a chynhyrchodd ystod eang o raglenni i gyd-fynd â mis Pride.

Mae S4C yn parhau i gefnogi nifer o fentrau hyfforddi gydag It's My Shout, Cynghrair Sgrin Cymru, ITV Cymru a Gyrfa Cymru i sicrhau eu bod yn datblygu gweithlu mwy amrywiol.

- **Ysbrydoli ac Addysgu:** Mae S4C wedi partneru â Llywodraeth Cymru i gynhyrchu mwy o gynnwys addysgol a chynnal rhai o'u rhaglenni ar Hwb i gefnogi'r cwricwlwm newydd i Gymru. Gyda rhaglenni wedi'u cynhyrchu ledled Cymru gyfan, mae gwaith a gomisiynwyd gan S4C yn galluogi i bobl leol gael profiad yn eu hardal leol.
- **Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd:** Mae S4C wedi partneru â Chonsortiwm BAFTA Albert i sicrhau bod ei rhaglenni yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol. Mae'r sefydliad yn chwarae rhan wrth rannu arferion da rhwng ei gyflenwyr gan leihau effeithiau amgylcheddol sector y cyfryngau yng Nghymru.

S4C

# Effaith gymdeithasol ac economaidd yn 2022/23

wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

## Yn 2022/23, trwy ei gweithgareddau dydd i ddydd, fe wnaeth S4C...

Cyflogi
**118**
o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru

| | |
|---|---|
| Caerdydd | 36% |
| Sir Gâr | 24% |
| Gwynedd | 16% |
| Gweddill Cymru | 23% |

Cynhyrchu
**£7.4m**
mewn gwerth ychwanegol gros (GVA) yng Nghymru

## Yng nghadwyn gyflenwi S4C

gwariwyd
**£104.5m**
ar gyflenwyr

cefnogwyd
**658**
o gyflenwyr yng Nghymru

fe aeth
**52%**
o wariant S4C ar fusnesau yng Nghymru
**tu allan i Gaerdydd**

## Y sectorau a gefnogwyd fwyaf gan S4C oedd

- Cynhyrchu fideo a theledu
- Rhaglennu a darlledu
- Chwaraeon a hamdden
- Gwasanaethau gweinyddol
- Hysbysebu ac ymchwil marchnad
- Celfyddydau ac adloniant

## Mae cyfraniad economaidd cyfan S4C's wedi arwain at....

**1,900**
o swyddi FTE

**£135.6M**
mewn GVA

**0.2%**
o gyfanswm GVA Cymru

## Am bob £1 o ffi'r drwydded mae S4C yn ei derbyn, mae

**£1.53**
mewn GVA yn mynd at economi Cymru

**£1.77**
mewn GVA yn mynd at economi'r DU

**£1.02**
yn dychwelyd mewn treth i'r Trysorlys*

## Mae S4C yn cyfrannu at y 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Ehangu adnoddau dysgu Cymraeg
- Gwella cynrychiolaeth mewn cyfryngau Cymraeg
- Hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol mewn cynhyrchu
- Cefnogi prentisiaethau yn y sector

**75%**
**Mae angen sgiliau iaith Gymraeg ar 75% o swyddi cyflenwyr uniongyrchol S4C**

# 1. Ynglŷn â'r Adroddiad Hwn

**Gan gyd-fynd â 40 mlwyddiant y sefydliad, gwnaeth S4C gomisiynu Wavehill i gynnal asesiad o'r effaith economaidd a chymdeithasol a ddeilliodd o'i gweithgareddau yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.**

Ers ei darllediad cyntaf ym 1982, mae S4C wedi esblygu o fod yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus arloesol Cymru, a'r pedwerydd sianel deledu ddaearol hynaf ym Mhrydain, i fod yn sefydliad angori economaidd a chymdeithasol cenedlaethol cydnabyddedig gyda chyfrifoldebau sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i un sianel.

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar rôl amlochrog S4C, gan daflu goleuni nid yn unig ar ei hôl troed cenedlaethol ond, yn bwysicach, oddi mewn i gymunedau lleol ac ar unigolion. Mae'n ymchwilio i'r cyfraniadau economaidd, dylanwad cymdeithasol, a chyfraniadau ehangach a wnaed ar bob un o'r lefelau hyn sy'n diffinio gwaddol a chenhadaeth barhaus S4C.

## Amcanion Ymchwil Allweddol

Mae'r astudiaeth hon yn ceisio asesu cyfraniad presennol S4C a gwerthuso sut y gall y cyfraniad hwn dyfu, a sut y mae'n tyfu, drwy weithredu Datganiad Polisi Cyfraniad Cymdeithasol S4C. Mewn ymateb, mae'r adroddiad yn nodi pedwar amcan ymchwil allweddol, sef:

1) mesur effaith economaidd gros gweithgareddau S4C yn ystod blwyddyn adrodd 2022/23 ar lefelau Cymru a'r Deyrnas Unedig;
2) dangos manteision economaidd (gan gynnwys ariannol) gweithgareddau S4C ar lefel leol a Chymru;
3) nodi sut mae S4C wedi cyfrannu at y Gymraeg;
4) canfod, asesu ac arddangos effeithiau cymdeithasol ac ehangach gweithgareddau a chyfraniad S4C i'r gymuned leol ac economi Cymru.

## Ein Dulliau Asesu

Mae'r fethodoleg ar gyfer asesu'r gwerth economaidd a chymdeithasol yn manteisio ar y fframweithiau sy'n cael eu defnyddio gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Chyngor Celfyddydau Lloegr. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd yn yr asesiad o'r effaith economaidd yn safonol ar gyfer y math hwn o asesiad ac fe'u llywiwyd gan yr egwyddorion sydd wedi'u nodi yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF.

Mae'r asesiad cyffredinol wedi'i lywio gan:

- adolygiad desg o weithgareddau S4C yn 2022/23 yn canolbwyntio ar newidynnau gweithredol allweddol sy'n gyrru manteision economaidd a chymdeithasol;
- data mewnol (incwm, cyflogeion, gwariant cadwyn gyflenwi) sydd gan S4C i gyfrannu at yr asesiad o'r effaith economaidd – mae manylion pellach am y fethodoleg i'w gweld yn Atodiad D;

- ymgynghoriad â 22 rhanddeiliaid strategol mewnol ac allanol â phrif gyflenwyr domestig mwyaf S4C (y rhai sy'n derbyn £1m neu fwy mewn incwm)– mae rhestr o’r ymgyngoreion i’w gweld yn Atodiad C;
- arolwg ar-lein i gyflenwyr S4C (y rhai sy'n derbyn llai na £1m) – ymatebodd cyfanswm o 67 o gyflenwyr;
- 22 o astudiaethau achos i ddangos cyfraniadau economaidd a chymdeithasol ehangach S4C yn unigol.

## Ffurf yr Adroddiad


Mae'r adroddiad wedi'i rannu yn ôl yr adrannau canlynol:

- **Pennod 2** – cyflwyniad i S4C, ei gweithgareddau a'r cyd-destun yn y gorffennol a'r presennol y bu ac y mae’n gweithredu ynddo;
- **Pennod 3** – asesiad o’r effaith economaidd a’r gwerth am arian yn seiliedig ar amcangyfrif o swyddi a gefnogwyd a’r gwerth ychwanegol gros a grëwyd o weithgareddau S4C yn 2022/23;
- **Pennod 4** – archwilio ôl troed economaidd ehangach S4C o gefnogi'r sector a'i chadwyni cyflenwi i ddatblygu talent;
- **Pennod 5** – asesiad o gyfraniadau S4C i'r Gymraeg;
- **Pennod 6** – archwilio effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach gweithgareddau S4C;
- **Atodiad A** – geirfa;
- **Atodiad B** – rhestr o gyfeiriadau;
- **Atodiad C** – crynodeb o’r randdeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy;
- **Atodiad D** – dulliau asesu’r effaith economaidd.

# 2. S4C: Y Sefydliad

Mae'r bennod hon yn gosod y llwyfan ar gyfer canfyddiadau'r adroddiad drwy ddarparu trosolwg o hanes S4C dros bedwar degawd, gan gwmpasu ei thwf a’r modd y mae ei gwasanaethau wedi ehangu. Yn yr adrannau canlynol, rydym yn ymchwilio i fanylion cyfraniadau S4C i'r economi, y Gymraeg, cymunedau lleol a'r amgylchedd. Mae'r cyd-destun hwn yn ein galluogi i gyflwyno asesiad cyflawn o gyfraniadau S4C.

## O'r Gorffennol i'r Presennol: Amserlen




Sefydlwyd S4C ym 1982 fel pedwaredd sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus Prydain yng Nghymru yn dilyn ymchwydd o alw gan bobl Cymru, gan ddarparu gwasanaeth darlledu teledu penodol Gymraeg. Fodd bynnag, yn yr 21ain ganrif, mae allbynnau ac effeithiau S4C yn ymestyn ymhell y tu hwnt i un sianel unigol. Wrth i arferion gwylio a’r galw am gynnwys newid, mae gwasanaethau S4C hefyd wedi newid. Gall gwylwyr bellach ddod i gyswllt â chynnwys S4C drwy S4C Clic, BBC iPlayer, gwasanaethau ffrydio a chyfryngau cymdeithasol tra'n parhau i wylio amrywiaeth eang o raglenni ar y teledu.

Mae strategaeth 2022/27 S4C[1], yn cydnabod y newid yn nhirwedd y cyfryngau ac yn ymateb drwy amlinellu ei chynllun i esblygu o fod yn Ddarlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus i fod yn Gyhoeddwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus. Nod y strategaeth hon yw sicrhau bod S4C yr un mor berthnasol â darlledwyr mawr eraill fel y BBC neu Channel 4 a gwasanaethau ffrydio fel Netflix trwy ganolbwyntio ei gwariant ar gynnwys aml-blatfform i sicrhau'r gwerth mwyaf am arian a’r cyrhaeddiad ehangaf o ran cynulleidfa.

[1] Strategaeth 2022/27 S4C

Yn ei blwyddyn adrodd 2022/23, cafodd tua 80% o gyfanswm cyllideb S4C ei sianelu i'r sector creadigol drwy gomisiynu cynnwys gan oddeutu 70 o bartneriaid cynhyrchu a gwario 98% o'i chyllideb gynnwys yng Nghymru.[2]

Cyn blwyddyn ariannol 2022/23, profodd S4C setliad cyllid craidd gwastad am nifer o flynyddoedd. O fis Ebrill 2022, daw holl gyllid cyhoeddus y darlledwr o ffi'r drwydded, gyda £7.5 miliwn ychwanegol wedi'i gynnwys yn setliad ffi'r drwydded 2022-27 i'w wario ar wella arlwy digidol S4C.

Daeth y setliad ariannu newydd hwn ar adeg pan mae S4C yn wynebu cyfres o heriau i'w gallu i gomisiynu rhaglenni:

- **Cyllideb sefydlog o ran arian parod**: roedd y setliad ariannu newydd a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2022 yn sefydlog mewn termau enwol ar gyfer dwy flynedd gyntaf cyfnod setliad presennol ffi'r drwydded, sy'n golygu cyllideb sy'n crebachu mewn termau real wrth wynebu cyfraddau chwyddiant cenedlaethol uwchlaw targed Banc Lloegr o ddau y cant.
- **Prinder sgiliau**: Gyrrodd pandemig Covid-19 lawer o weithwyr allan o'r diwydiant cynhyrchu teledu, gan arwain at brinder sgiliau sylweddol a chostau uwch i recriwtio staff. Mae'r BFI (British Film Institute) yn amcangyfrif y bydd angen 20,000 o weithwyr amser llawn ychwanegol yn sector cynhyrchu'r Deyrnas Unedig i ateb y galw. [3]
- **Galw cynyddol**: mae'r 'rhyfeloedd ffrydio' fel y'u gelwir, sy'n cael eu gyrru gan fwy o gystadleuaeth ar blatfform gwasanaeth ffrydio ar-lein hefyd wedi cynyddu costau cynhyrchu. Mae hyn wedi cael effaith arbennig ar gostau fesul awr o gynhyrchu dramâu o ansawdd uchel, genre y mae S4C wedi profi llwyddiant sylweddol ynddi yn ddiweddar.

Er mwyn sicrhau bod S4C yn cael gwerth am arian i'w gynulleidfaoedd, mae'r sefydliad yn parhau i weithio gyda'i bartneriaid yn TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru) a chwmnïau cynhyrchu unigol.

# Esblygiad yng Ngweithgareddau S4C

Ar hyn o bryd mae cyrhaeddiad cynulleidfa S4C yng Nghymru ar ei uchaf ers pum mlynedd, gyda chynnydd o 8% wedi'i gofnodi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig. At hynny, mae cyfraniad pobl ifanc 16-44 oed i oriau gwylio S4C ar ei uchaf ers degawd. [4] Yn y cyd-destun hwn, mae S4C yn parhau i fod yn sylfaen allweddol i sector cynhyrchu'r cyfryngau yng Nghymru wrth iddi drawsnewid o fod yn ddarlledwr cyfryngau traddodiadol i fod yn ddarparwr cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

[2] S4C, Adroddiad Blynyddol 2023-23, 2023
[3] BFI, Skills review published for film and high-end television, 2022
[4] Bwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd Darlledwyr (BARB), 2022

O safbwynt gwasanaeth cyhoeddus, mae'r trawsnewid hwn yn cynnwys mwy o ffocws ar gynnwys aml-blatfform i sicrhau'r cyrhaeddiad mwyaf a'r gwerth mwyaf am arian. Yn fasnachol, mae hyn yn cynnwys ymchwilio i sut y gall brandiau cyfredol ar yr awyr gynnal a pharhau i ychwanegu gwerth a chyd-gynhyrchu dramâu mwy beiddgar ar raddfa fwy, yn ogystal â fformatau eraill a all fanteisio ar farchnad ryngwladol.

Yn ystod y degawd diwethaf, mae S4C wedi ceisio ehangu ei chyrhaeddiad drwy ddatblygu brandiau cryf i dargedu cynulleidfaoedd penodol a chychwyn ar bartneriaethau i sicrhau bod ei chynnwys ar gael ar amrywiaeth ehangach o blatfformau. Mae cynnwys S4C bellach ar gael ar ystod eang o blatfformau fel iPlayer, Clic, Youtube, Facebook a TikTok, gan gynnwys cynnwys wedi'i becynnu o fewn brandiau sydd wedi'u dylunio i apelio at gynulleidfaoedd penodol fel Hansh a Lŵp.

## Dylanwad a Gwaith Ehangach


Mae dylanwad S4C yn ymestyn y tu hwnt i gomisiynu cynnwys adloniant. Trwy ei gwaith rhaglennu a'i phartneriaethau, mae S4C yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r Gymraeg, cryfhau sector y cyfryngau yng Nghymru ac ehangu cyrhaeddiad diwylliant Cymru. Mae rhai o'r partneriaethau allweddol yn cynnwys:

- **Datblygu cynnwys addysgol**: Mae S4C, CBAC a Llywodraeth Cymru wedi cydweithredu i ddarparu dros 80 awr o raglenni ar gyfer Hwb, platfform addysg Llywodraeth Cymru. At hynny, mae gan S4C swyddog ymroddedig sy'n gyfrifol am gydlynu cynnwys ac adnoddau addysg bellach.
- **Cefnogi dysgwyr Cymraeg**: Mae strategaeth iaith Gymraeg S4C wedi atgyfnerthu partneriaethau â sefydliadau fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Llywodraeth Cymru drwy eu memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn ymwneud â Chymraeg 2050. Mae hyn wedi arwain at gydweithio'n agosach ag arbenigwyr wrth ddatblygu cynnwys sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Mae S4C hefyd wedi gwella ei chynrychiolaeth o ddysgwyr drwy raglenni craidd fel Pobol y Cwm ac Iaith ar Daith.
- **Hybu datblygiad proffesiynol**: Trwy bartneriaethau â sefydliadau allweddol fel Teledwyr Annibynol Cymru (TAC) a Chymru Greadigol, mae S4C yn cynorthwyo darpariaeth gweithgareddau hyfforddi a datblygu yn sector cyfryngau Cymru fel y Cynllun Carlam Ffeithiol, It's My Shout a chyrsiau sgriptio’r NFTS. Mae cyllid S4C wedi galluogi TAC i ddarparu hyfforddiant hanfodol mewn rheolaeth, iechyd a diogelwch, yn ogystal â chreu cyfleoedd hyfforddi newydd i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth bresennol. Yn ddiweddar mae S4C wedi eirioli dros hyfforddiant sy’n helpu i ddatblygu syniadau am raglenni i fod yn barod i’w cyflwyno er mwyn ehangu amrywiaeth y mewnbwn creadigol yn y cyfryngau Cymraeg.

- **Datblygu amrywiaeth yn y cyfryngau yng Nghymru**: Ar y sgrin, mae S4C wedi noddi a darlledu digwyddiadau Pride Cymru, tra bod rhaglenni fel Drych: Fi, Rhyw ac Anabledd a Craith wedi gwella cynrychiolaeth pobl anabl yn y cyfryngau yng Nghymru. Oddi ar y sgrin, mae S4C wedi partneru â'r Rhwydwaith Amrywiaeth Greadigol trwy brosiect Diamond i fonitro amrywiaeth y gweithlu er mwyn ymdrechu i greu sector y cyfryngau sy'n fwy cynrychioliadol.
- **Rhoi Llwyfan Ehangach i Ddiwylliant Cymru**: Mae S4C yn chwarae rhan hanfodol wrth ehangu cyrhaeddiad diwylliant Cymru drwy ddarlledu digwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd, Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a Gemau Stryd yr Urdd.

## Datganiad Polisi Cyfraniad Cymdeithasol S4C

Mae datganiad polisi newydd S4C yn canolbwyntio ar y pwrpas cymdeithasol o 'sicrhau bod y Gymraeg yn rhan bwysig o fywyd pawb yng Nghymru'. Daw hyn ar adeg pan mae S4C yn anelu at fanteisio ar lwyddiannau diweddar o ran mwy o wylwyr iau tra bod cyfraddau wedi gostwng ymhlith sianeli cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus eraill.[5] Mae'r pwrpas craidd hwn yn cael ei ategu gan bedair colofn sy'n cefnogi Strategaeth 2022-27 S4C ac yn cydnabod cylch gwaith a chyfraniad presennol S4C wrth geisio parhau i hybu creadigrwydd, yr economi a'r iaith yng Nghymru. Dyma'r pedair colofn:




---


[5] Bwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd Darlledwyr, Proffil Oedran Sianeli Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yn ystod oriau brig yng Nghymru, 2023

# 3. Effaith Economaidd S4C yn 2022/23

Mae'r bennod hon yn ceisio mesur effaith economaidd gweithgareddau S4C ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. Mae mesur effaith economaidd S4C yn ymestyn y tu hwnt i'w rôl fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.

## Asesu Effaith Economaidd

Mae'r sefydliad yn cynhyrchu gwerth yn uniongyrchol drwy ei ddarlledu ac yn anuniongyrchol drwy gomisiynu cwmnïau cynhyrchu i greu cynnwys. Yn ogystal, i gefnogi ei gweithrediadau o ddydd i ddydd, mae S4C yn dibynnu ar nwyddau a gwasanaethau sy’n cael eu cyflenwi o’r tu allan i'r sector creadigol, o daliadau rhent i sefydliadau digwyddiadau i brynu yswiriant. Mae'r gwariant ehangach hwn yn y gadwyn gyflenwi, ynghyd â chyflogau gweithwyr, oll yn rhan o ôl troed economaidd S4C. Yn olaf, mae'r adroddiad hwn wedi ceisio mesur yr effeithiau ar dwristiaeth sy’n cael eu cynhyrchu gan ymwelwyr â phencadlys S4C yn yr Egin, gan gynnwys cynulleidfaoedd stiwdios rhaglenni.




***Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill, 2023***

Wrth sôn am effaith economaidd, mae'r astudiaeth hon wedi amcangyfrif effaith gweithgareddau 2022/23 S4C yn nhermau (mae manylion am fethodoleg a chyfyngiadau’r asesiad i’w gweld yn Atodiad D).

- **Cefnogi cyflogaeth:** nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn sydd eu hangen i gyflawni gweithgareddau S4C ac ateb ei galw am nwyddau a gwasanaethau; [6]


[6] Lle mae swyddi amser llawn yn cyfrif fel 1 FTE a swyddi ran-amser fel 0.5 FTE

- **Gwerth Ychwanegol Gros**: mesur o'r gwerth sy’n cael ei gynhyrchu o'r gweithgareddau sy'n arwain at gynhyrchu nwydd neu wasanaeth.

## Gwerth Uniongyrchol S4C

Yn seiliedig ar ddata staff a ddarparwyd, **cyfanswm maint gweithlu S4C yn 2022/23 oedd 119.5 FTE ac roedd pob swydd ac eithrio 1.5 FTE** wedi'i lleoli yng Nghymru (caiff lleoliad ac ansawdd y gweithlu eu hasesu isod.)

Er mwyn cefnogi ei gwaith o ddydd i ddydd, mae S4C yn dibynnu ar nifer sylweddol o rolau hanfodol mewn rolau comisiynu, rheoli cynnwys, digidol, corfforaethol a marchnata. Mae'r darlledwr hefyd yn cyflogi ymchwilwyr a newyddiadurwyr i gynhyrchu deunydd ar gyfer ei platfform newyddion ar-lein, Newyddion S4C.




***Ffynhonnell: S4C, Cyfrifon Blynyddol 2022/23***

Yn seiliedig ar Gyfrifon Blynyddol S4C, **cynhyrchodd y sefydliad £7.5m mewn gwerth ychwanegol gros, gan gynrychioli ei gyfraniad economaidd uniongyrchol (yn bennaf trwy gyflogau) fel darlledwr, yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23**.

## Gwariant S4C a'i Chadwyn Gyflenwi


Yn seiliedig ar ddata a rannwyd gan S4C, **gwariodd y sefydliad dros £104.5m ar ei gyflenwyr (gan gynnwys gweithwyr llawrydd) yn ystod cyfnod 2022/23**:

- **gwariwyd tair o bob pedair punt (£78.6m) ar fusnesau sydd â’u pencadlys wedi'u lleoli yng Nghymru neu ar unigolion (h.y. gweithwyr hunangyflogedig a llawrydd) sydd wedi lleoli yng Nghymru.**

- o'r £25.9m sy'n weddill a wariwyd y tu allan i Gymru, prynwyd 45% o’r gwasanaethau a/neu nwyddau gan sefydliadau sydd â swyddfa a phresenoldeb staff yng Nghymru.

Mae'r map isod yn dangos bod gwariant S4C yn cael effaith ledled Cymru. **O'r £78.6m a wariwyd yn y wlad, aeth dros hanner (52%) neu £41.0m i fusnesau sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gaerdydd**. Y tri awdurdod lleol yng Nghymru a elwodd fwyaf ar wariant S4C ar gyflenwyr oedd Caerdydd (48% o'r gwariant yng Nghymru yn unig), Gwynedd (27%) a Sir Gaerfyrddin (16%). Mae'r dosbarthiad hwn yn gyson â lleoliadau tri chynhyrchydd mwyaf S4C: Boom, Rondo, a Tinopolis.

**Ffigur 3.1: Gwariant cadwyn gyflenwi S4C yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol[7]**





***Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill o Ddata Gwariant S4C***

[7] Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA) yn ardaloedd daearyddol o fewn awdurdodau lleol wedi’u diffinio gan ystadegau’r cyfrifiad. Maent yn cynnwys rhwng 2,000 a 6,000 o aelwydydd ac mae ganddynt boblogaeth breswyl arferol rhwng 5,000 a 15,000 o bobl.

Er mai gwariant yn is-sector ffilm, teledu, fideo, radio a cherddoriaeth[8] yw 80% o gyfanswm gwariant S4C, **gwnaeth y darlledwr ymwneud â 977 o gyflenwyr ar draws 47 o sectorau gwahanol yn 2022/23**. [9] Mae hyn yn dangos bod dylanwad ac effaith economaidd S4C yn ymestyn y tu hwnt i'w diwydiant, gan ddangos ei hamrywiaeth sectoraidd. Mae'r graff isod yn dangos y gadwyn gyflenwi ehangach hon ac yn olrhain gwariant cyflenwyr cyfatebol S4C fesul sector y tu allan i is-sector 'Ffilm, Teledu, Fideo, Radio, a Cherddoriaeth'.

**Ffigur 3.2: Gwariant cadwyn gyflenwi S4C yn ôl sector ac eithrio'r is-sector Ffilm, Teledu, Fideo, Radio, a Cherddoriaeth**




***Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill o Ddata Gwariant S4C***

Yn eu tro, mae cyflenwyr S4C yn dibynnu ar eu cadwyn gyflenwi a'u gweithwyr llawrydd i ddarparu'r nwyddau a'r gwasanaethau mae'r darlledwr yn eu prynu – sydd hefyd yn cael ei alw'n effaith lluosydd. Mae'r llif gwariant hwn yn golygu bod yn rhaid i'r gadwyn gyflenwi recriwtio a chynnal maint penodol o weithlu i ateb y galw hwn am allbwn, sydd felly'n ysgogi gweithgarwch economaidd. Amcangyfrifir bod effaith y gadwyn gyflenwi hon yn 2022/23 **wedi cefnogi 1,400 o swyddi FTE a £99.8m mewn gwerth ychwanegol gros yng Nghymru yn unig**. **Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae hyn yn codi i 1,750 o swyddi FTE a £117.6m mewn gwerth ychwanegol gros**.

Yn nodedig, **mae 94% ac 85% o effeithiau cyflogaeth a gwerth ychwanegol gros, yn y drefn honno, wedi'u cadw yng Nghymru**, gan bwysleisio arwyddocâd S4C fel ased cenedlaethol — fel y'i disgrifir gan sawl rhanddeiliad — a sefydliad angori o fewn economi Cymru.

[8] Codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol 59 a 60
[9] Fel y'u diffinnir gan god Dosbarthiad Diwydiannol Safonol digid 2 y Swyddfa Ystadegau Gwladol.


# Effaith Cyflogau

Y tu hwnt i fesur cyflogaeth sy'n cael ei chefnogi gan S4C a'i chadwyni cyflenwi, gan gynnwys gweithwyr llawrydd, mae'r asesiad o'r effaith economaidd hefyd yn cyfrif am effaith y modd y mae cyflogau'r swyddi hyn yn cael eu gwario yn yr economi ehangach. Mae incwm gwario yn cael ei wario yn yr economi ar fwyd, dillad ac adloniant sy'n cymell gweithgarwch economaidd ychwanegol. **Amcangyfrifir bod yr effeithiau hyn wedi cefnogi £28.4m mewn gwerth ychwanegol gros a 400 o swyddi FTE yng Nghymru, a £32.1m mewn gwerth ychwanegol gros a 450 o swyddi FTE ledled y Deyrnas Unedig yn y cyfnod 2022/23.**

Mae S4C yn creu swyddi medrus o ansawdd da sy'n talu'n dda. Ar gyfartaledd, mae gweithwyr S4C yn ennill mwy na lefelau cyflog blynyddol cyfartalog Cymru a'r Deyrnas Unedig.[10] Mae cyflogau gweithwyr S4C yn uwch na norm y diwydiant ar gyfer y sector darlledu yng Nghymru (+10%) ond ychydig yn is na chyfartaledd y DU (-2%).[11] O fewn S4C, mae'r cyflogeion sy'n byw yng Nghaerdydd, ar gyfartaledd, yn ennill 9% yn fwy na'u cymheiriaid sy'n byw mewn rhannau eraill o Gymru. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth cyflog rhanbarthol hwn ddau bwynt canran yn llai na'r gwahaniaeth cyflog cyfartalog cyffredinol rhwng Caerdydd a gweddill Cymru, gan ddangos ymdrechion S4C i hybu datblygiad rhanbarthol.[12]

Fel mae'r ffigwr isod yn dangos, mae staff S4C hefyd wedi'u dosbarthu'n eang ar draws Cymru, yn enwedig ers i bencadlys S4C gael ei adleoli i'r Egin yng Nghaerfyrddin. Mae enillion cyfartalog llawer o'r awdurdodau lleol hyn (sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Gwynedd) yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, sy'n amlygu rôl S4C fel darparwr cyflogaeth o ansawdd uchel yn yr ardaloedd hyn.

**Ffigur 3.3: Dosbarthiad staff S4C yn ôl Awdurdod Lleol**




***Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill o ddata staff S4C***

[10] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Annual survey of hours and earnings, 2022
[11] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Earnings and hours worked by industry, 2022
[12] StatsCymru, Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrif) yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn (£) – defnyddiwyd cyfartaledd awdurdodau lleol fel cymhariaeth

# Effaith Ymwelwyr

Yn 2018, symudodd S4C o'i phencadlys yng Nghaerdydd i'r Egin, canolfan greadigol a digidol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Roedd yr adleoliad strategol hwn yn cyflawni sawl pwrpas: daeth â'r darlledwr yn agosach yn ddaearyddol at ei gynulleidfa amrywiol ar draws Cymru, roedd yn ysgogi twf economaidd yn y rhanbarth, ac yn ehangu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant y tu hwnt i ardal Caerdydd. Yn ogystal, roedd y symudiad yn galluogi S4C i ddarparu cynnwys darlledu o ansawdd uchel tra'n cynnal gwerth da am arian.

Mae S4C yn denu ymwelwyr i'r ganolfan a'r stiwdio deledu ar y safle, gan gynnwys myfyrwyr, cleientiaid, partneriaid, a'r rhai sy'n ymwneud â ffilmio "Jonathan". Mae'r ymwelwyr hyn yn mynd ymlaen i wario yn yr economi leol ar fwyd, llety, a gwasanaethau eraill. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23, amcangyfrifir bod y gweithgarwch ymwelwyr hwn wedi creu 1 swydd FTE ac wedi cyfrannu £25,000 mewn gwerth ychwanegol gros i economi Cymru.

Fel sy'n cael ei archwilio'n ansoddol ym Mhennod 4, mae gan gynnwys S4C a'i llwyddiannau rhyngwladol diweddar y potensial i hybu twristiaeth a denu mwy o ymwelwyr i Gymru, yn ddomestig ac yn rhyngwladol. Er nad yw union effaith feintiol hyn wedi'i bennu eto am fod y data'n gyfyngedig, mae'n rhesymol disgwyl bod dylanwad S4C ar nifer yr ymwelwyr a'r gwariant yn debygol o fod yn fwy na'r hyn sy'n cael ei fesur ar hyn o bryd.

# Cyfanswm Effaith Economaidd Gweithgareddau S4C yn 2022/23

Fel grym sy'n dylanwadu ar ddiwylliant yng Nghymru a chyfrannwr hanfodol i ddiwydiannau creadigol y Deyrnas Unedig, mae gan S4C ôl troed economaidd pellgyrhaeddol sy'n ymestyn ar draws gwahanol sectorau a ffiniau daearyddol. Trwy ei gweithrediadau dyddiol, ei gweithgareddau comisiynu, cynhyrchu a darlledu, a buddsoddiadau strategol, yn ogystal â'i rôl fel cyflogwr sefydliadol, mae S4C yn sbardun allweddol ar gyfer gweithgarwch economaidd.

**Yn ei gyfanrwydd, amcangyfrifir bod gweithgareddau S4C yn 2022/23 wedi cefnogi cyfanswm o 1,900 o swyddi FTE a £135.8m mewn gwerth ychwanegol gros yng Nghymru gan godi i 2,300 a £157.4m ar draws y Deyrnas Unedig.** Mae hyn yn golygu:

- **ar gyfer pob swydd uniongyrchol yn S4C, cefnogwyd 15 a 18 o swyddi FTE pellach yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn y drefn honno;[13]**

[13] Cyfanswm y swyddi FTE a gefnogwyd gan weithgareddau 2022/23 S4C (tynnu swyddi FTE uniongyrchol S4C) fel cyfran o swyddi FTE uniongyrchol S4C

- **mae ychydig dros 1 o bob 7.6 swydd yn is-sector 'Ffilm, Teledu, Fideo, Radio, a Cherddoriaeth' Cymru yn cael ei chefnogi gan S4C;[14]**
- **mae cyfanswm cyfraniad gwerth ychwanegol gros S4C o £135.9m i economi Cymru yn cyfateb i 42% o is-sector 'Ffilm, Teledu, Fideo, Radio, a Cherddoriaeth' Cymru a 0.2% o gyfanswm gwerth ychwanegol Cymru yn 2022.[15,16]**

| | Cymru | | Y Deyrnas Unedig | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwerth Ychwanegol Gros (£m) | Swyddi FTE | Gwerth Ychwanegol Gros (£m) | Swyddi FTE |
| Gwerth Uniongyrchol S4C | £7.4 | 118 | £7.5 | 120 |
| Gwariant S4C a'r Gadwyn Gyflenwi | £99.8 | 1,400 | £117.5 | 1,750 |
| Effaith Cyflogau | £28.4 | 400 | £32.1 | 450 |
| Twristiaeth | £0.02 | 1 | £0.02 | 1 |
| **Cyfanswm** | **£135.6** | **1,900** | **£157.2** | **2,300** |

Noder: mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu ac felly efallai na fyddant o'u hadio yn rhoi cyfanswm y gwerthoedd sy'n cael eu cyflwyno yn y tabl uchod.

## Elw ar Fuddsoddiad

Mae S4C yn blaenoriaethu gwario canran uchel o'i hincwm cyhoeddus ar gynnwys o safon sydd i'w gymharu â darlledwyr eraill y Deyrnas Unedig tra'n sicrhau gorbenion isel. Mae'r sefydliad wedi cyflawni arbedion cost sylweddol trwy resymoli staff, ystad, a thechnoleg (gan gynnwys cydleoli gwasanaethau technegol gyda BBC Cymru) ac adleoli ei bencadlys.

At hynny, mae S4C yn cydweithio â chynhyrchwyr a phartneriaid i sicrhau bod cynnwys cost-effeithlon yn cael ei gynhyrchu wrth gytuno ar gost cynhyrchu pob awr o gynnwys. Mae rhai enghreifftiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys llifoedd gwaith digideiddio fel rhan o ddarlledu Eisteddfod yr Urdd (gŵyl flynyddol a gynhelir gan y mudiad ieuenctid cenedlaethol), cynyddu allbwn digidol ar gyfer Tafwyl (gŵyl Gymraeg flynyddol) a gweithio gyda nifer o gwmnïau cynhyrchu i gyd-gynhyrchu cyfresi (cydweithiodd Cwmni Da a Chwarel i gynhyrchu Gogglebocs Cymru).

[14] Cyfanswm y swyddi FTE a gefnogwyd gan weithgareddau S4C yn 2022/23 fel cyfran o gyfanswm y swyddi yn is-sector 'Ffilm, Teledu, Fideo, Radio, a Cherddoriaeth' yng Nghymru (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth)
[15] StatsCymru, Cynnyrch Economaidd – Gwerth Ychwanegol Crynswth, 2023
[16] StatsCymru, Gwerth Ychwanegol Crynswth yng Nghymru yn ôl diwydiant, 2023

Er gwaethaf costau byd-eang cynyddol cynhyrchu rhaglenni, **S4C yw un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf cost-effeithlon yn y Deyrnas Unedig gyda chost yr awr yn sylweddol is na darlledwyr eraill**, gan gomisiynu ar ffracsiwn (25 – 33% fel arfer) o gyfraddau genre tebyg sy'n cael eu defnyddio gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.[17]

Nid yn unig y mae S4C yn gost-effeithlon ond mae'n darparu gwerth am arian wrth edrych ar y swyddi y mae'n eu cefnogi a'r gwerth ychwanegol gros y mae'r sefydliad yn eu cynhyrchu. **Yn seiliedig ar incwm S4C o ffi'r drwydded, cyfanswm o £88.9m yn 2022/23, cynhyrchodd y sefydliad £1.53 mewn gwerth ychwanegol gros yng Nghymru am bob punt o ffi'r drwydded a dderbyniwyd, gan godi i £1.77 yn y Deyrnas Unedig**.

## Effaith Economaidd Ranbarthol a Lleol

Mae Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig wedi nodi uchelgeisiau i dyfu ardaloedd y tu allan i Gaerdydd drwy fargeinion twf y Canolbarth a'r Gogledd a Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Un o nodau'r bargeinion twf hyn yw adeiladu ar gryfderau a hybu cynhyrchiant wrth fynd i'r afael â heriau hirdymor a rhwystrau economaidd i sicrhau twf cynhwysol.


Fel y dangosir uchod, mae S4C wedi cymryd camau gweithredol i helpu i yrru'r agenda hon gan gynnwys adleoli o Gaerdydd i Gaerfyrddin a chyda dros hanner ei gwariant ar gadwyn gyflenwi yng Nghymru y tu allan i Gaerdydd. Pan ofynnwyd iddynt am gyfraniadau penodol S4C i economi Cymru, pwysleisiodd sawl cwmni cynhyrchu ffocws S4C ar Gymru gyfan.

> "Mae'n teimlo fel bod gan S4C fwy o ffocws ar Gymru gyfan, maen nhw'n mynd ati i annog cwmnïau i sefydlu eu hunain mewn llefydd fel Caernarfon, Llanelli a Chaerfyrddin. Heb S4C, rwy'n credu y byddai gennym ni sector cynhyrchu a fyddai'n canolbwyntio o fewn Caerdydd yn unig."
> **(Cwmni Cynhyrchu)**

Mae'r dewisiadau strategol a wnaed gan S4C wedi arwain at ddosbarthiad mwy amrywiol yn ddaearyddol o weithgarwch ac effaith economaidd. Mae'r rhan fwyaf o gyfanswm effaith S4C yn cael ei phriodoli i'w chyflenwyr a'r gadwyn gyflenwi, gan gyfrif am 76% o'r swyddi FTE a gefnogwyd a 75% o'r gwerth ychwanegol gros a gynhyrchwyd. Mae'r ddau fap canlynol yn dangos dosbarthiad daearyddol effaith y gwariant hwn. Cafodd cyfanswm o £56.1 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros a 400 o swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) eu cynhyrchu y tu allan i Gaerdydd.


[17] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon S4C 2022/23

## Ffigur 3.4: Swyddi a gefnogwyd gan gyflenwyr uniongyrchol i S4C yn ôl Awdurdod Lleol




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill*

## Ffigur 3.5: Gwerth ychwanegol gros a gynhyrchwyd gan gyflenwyr uniongyrchol i S4C yn ôl Awdurdod Lleol



## Datblygu Rhanbarthol: Dylanwad yn Sir Gaerfyrddin

Yn dilyn pedair blynedd o gynllunio ac adeiladu, agorodd S4C eu pencadlys newydd yn swyddogol yn yr Egin yng Nghaerfyrddin yn 2018. O'i chanolfan yn yr Egin, mae S4C wedi cynhyrchu £7.4m mewn gwerth ychwanegol gros yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer economi Cymru drwy ei gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae'r Egin, sydd wedi'i lleoli yng nghanol campws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, wedi caniatáu i S4C symud yn agosach at ei chynulleidfaoedd ledled Cymru gyfan. Mae traean o weithlu S4C bellach wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin a'i hawdurdodau lleol cyfagos - gan weithio yn yr Egin. Mae gweithgarwch gwario gweithwyr S4C yn Sir Gaerfyrddin wedi cynhyrchu cyfanswm o £730,000 mewn gwerth ychwanegol gros ac wedi cefnogi dros 10 o swyddi FTE.

Mae S4C yn gweithredu fel sefydliad angori i'r ganolfan, ac mae dros 15 o fusnesau bellach wedi ymuno ag S4C mewn adeilad sy'n cynnwys awditoriwm, ystafelloedd golygu ac ardal berfformio. Mae'r Egin yn galluogi mwy o gydweithio, cysylltiadau a rhannu syniadau o fewn diwydiannau digidol a chreadigol Cymru. Yn 2022/23, cyfeiriodd S4C 12.1% o'i gwariant ar gadwyn gyflenwi (tua £12.7m) i fusnesau yn Sir Gaerfyrddin. Cynhyrchodd y gwariant uniongyrchol hwn ychydig dros £8.1m mewn gwerth ychwanegol gros a chefnogodd ychydig dros 100 o swyddi FTE yn yr awdurdod lleol.

Mae S4C hefyd yn denu ymwelwyr o gleientiaid i bartneriaid i griw ffilmio, staff a chynulleidfa i'r Egin a Sir Gaerfyrddin. Yn 2022/23, amcangyfrifwyd bod 1,000 o ymwelwyr undydd wedi ymweld â'r ganolfan, gan gynhyrchu £25,000 ychwanegol mewn gwerth ychwanegol gros a chefnogi un swydd FTE ychwanegol.

**Mae S4C yn uniongyrchol wedi cyfrannu cyfanswm o £16.2m o werth ychwanegol gros a chefnogi 193.5 o swyddi FTE yn Sir Gaerfyrddin**


### Effaith Economaidd Sectoraidd

Fel darlledwr sydd ddim yn creu'r rhan fwyaf o'i gynnwys ei hun, nid yw'n syndod bod y rhan fwyaf o wariant S4C yn cael ei wario yn is-sector 'Ffilm, Teledu, Radio, a Cherddoriaeth'. Mae hyn yn cyfrif am 67% o'r swyddi FTE a gefnogir ac 83% o'r gwerth ychwanegol gros a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig.

Fodd bynnag, nid yw effaith economaidd gwariant S4C wedi'i chyfyngu i'r is-sector hwn yn unig. Yn bwysig, nid yw'r effaith hon yn ansylweddol, o bell ffordd. Ym mhob is-sector arall gyda'i gilydd, mae gwariant S4C yn cyfrannu at 327 o swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) ychwanegol a £10.8 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros.

“Rydym ni'n cefnogi llawer o fusnesau yn anuniongyrchol, yn enwedig pan rydym ni'n ffilmio ar leoliad. Rydym ni’n defnyddio gwestai, arlwywyr a chyfleusterau lleol, rydym ni’n cefnogi cwmnïau trafnidiaeth, ac yn cefnogi perchnogion lleoliadau fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cadw neu ffermwyr lleol.” **(Cwmni Cynhyrchu)**

**Ffigur 3.6: Gwerth ychwanegol gros a gynhyrchir gan wariant S4C ym mhob sector yn y DU**




***Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill o ddata gwariant S4C***

# 4. Ôl Troed Economaidd S4C

Tra bod y bennod flaenorol yn ceisio mesur cyfraniadau economaidd S4C, mae gan y sefydliad ddylanwad haniaethol sylweddol ar yr economi hefyd. Mae'r bennod hon yn archwilio ôl troed economaidd ehangach S4C wrth gefnogi'r economi, gan gwmpasu datblygu clystyrau a'i gallu i ddenu buddsoddiad ehangach o'r tu allan.

Mae'r canfyddiadau sy'n cael eu cyflwyno isod wedi eu llywio gan adolygiad llenyddiaeth ar ddylanwadau amrywiol teledu a darlledu, wedi'u hategu gan ddata ystadegol lle bo hynny ar gael, wedi'u llywio gan safbwyntiau randdeiliaid strategol, ac wedi'u darlunio gan ddefnyddio astudiaethau achos unigol.

## Datblygu'r Sector a'r Gadwyn Gyflenwi

Mae'r diwydiant creadigol yn y DU o bwysigrwydd sylweddol i'r economi gyffredinol, yn enwedig oherwydd ei statws a'i botensial mawr i dyfu ond hefyd oherwydd ei wytnwch (Tŷ'r Arglwyddi, 2022). Cyfrannodd sector y diwydiannau creadigol £109bn i economi'r Deyrnas Unedig yn 2021, sy'n cyfateb i 5.6% o economi'r Deyrnas Unedig y flwyddyn honno. Yng Nghymru, yn 2021, roedd y sectorau creadigol yn cynnwys 3,423 o fusnesau, sy'n dwf o 6.4% o'i gymharu â 2018. Roedd y sectorau hyn yn cyflogi 35,400 o unigolion a gwnaethant gynhyrchu trosiant blynyddol o £1.7 biliwn yn 2021, sy'n gynnydd o 14% o'r ffigurau a gofnodwyd yn 2017 (Cymru Greadigol, 2022).

Ar wahân i'w chyfraniadau o ran effaith economaidd uniongyrchol, mae S4C yn cyd-fynd â Chynllun Adrannol Sengl yr Adran 2019 dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac yn ymateb iddo wrth hybu twf economaidd, cyflogaeth ac adfywio; ehangu cyrhaeddiad ac allforion byd-eang; a chefnogi mentrau datblygu sgiliau a hyfforddiant.

### Cefnogi'r Diwydiannau Creadigol a Thwf Ehangach y Sector

Fel y nododd un rhanddeiliad, ers ei sefydlu, mae S4C wedi bod yn bwysig iawn i economi Cymru ond yn hanfodol wrth yrru esblygiad a thwf y sectorau teledu, ffilm a chreadigol. Mae'r diwydiannau creadigol yn chwarae rhan ganolog wrth hybu twf economaidd yn y Deyrnas Unedig (Lee, 2014). Mae'r sectorau amrywiol hyn, sy'n ymestyn o ffilm a ffasiwn i'r cyfryngau digidol, nid yn unig wedi cyfrannu'n sylweddol at gynnyrch domestig gros a chyflogaeth y wlad, ond maent hefyd wedi meithrin datblygiad hybiau creadigol bywiog.

Ym mlwyddyn ariannol 2022/23, gweithiodd S4C mewn partneriaeth â 70 o gwmnïau cynhyrchu a dyrannwyd bron i 80% o'i chyllideb i gomisiynu cynnwys, a chynhyrchwyd dros 98% ohono yng Nghymru. Mae'r buddsoddiad hwn yn cael effaith gynyddol ar weithgarwch economaidd ar draws gwahanol sectorau yng Nghymru. Roedd rhanddeiliaid yn awyddus i bwysleisio bod dylanwad S4C yn ymestyn y tu hwnt i'w gwariant ariannol gan ei bod yn chwarae rhan ganolog yn:

- **Meithrin Busnesau Newydd:** Roedd rhanddeiliaid yn aml yn mynegi bod modd priodoli bodolaeth a llwyddiant llawer o gwmnïau sy'n gysylltiedig â'r sector creadigol yn uniongyrchol i gefnogaeth S4C. Mae S4C yn darparu eu cyfleoedd cychwynnol yn y farchnad i gwmnïau annibynnol newydd a bach, gan gyfrannu at eu sefydlu a'u llwyddiant yn y sector creadigol.
- **Gwella Gwytnwch ac Enw Da:** Mae cwmnïau sy'n cydweithio ag S4C yn aml yn ennill yr hygrededd sydd ei angen i sicrhau comisiynau gan rwydweithiau eraill, gan gynnwys rhai rhyngwladol, a denu buddsoddiad cyfalaf.
- **Annog Buddsoddi ac Arloesi:** Mae dull S4C o gynnig contractau tymor hir yn ysgogi cwmnïau cynhyrchu i fuddsoddi yn eu prosiectau ac archwilio syniadau a thechnolegau newydd.
- **Ysgogi'r Economi Leol:** Trwy flaenoriaethu cyflenwyr a chynnwys lleol, mae S4C nid yn unig yn hybu busnesau lleol ond hefyd yn cyfrannu at greu ecosystem economaidd hunangynhaliol yng Nghymru. Mae S4C yn dangos i unigolion eu bod yn gallu gweithio yn sector y cyfryngau yn lleol – mae eu rhaglenni Pren ar y Bryn (Fiction Factory) a Bariau (gweler yr Astudiaeth Achos ym Mhennod 6 isod) yn cyflogi pobl yn y gymuned leol i weithio ar gynyrchiadau.

## Datblygu Clystyrau a Datblygu Rhanbarthol

Gall presenoldeb, buddsoddiadau strategol a gweithgareddau darlledu S4C ysgogi clystyrau i ddatblygu o amgylch cynhyrchu'r cyfryngau, gan arwain at well datblygiad economaidd rhanbarthol.  Mae sefydliadau angori yn elfen ddylanwadu allweddol a gallant fod yn gatalydd i ddatblygu clystyrau (Ferreira, M. P. et al., 2012), datblygu rhanbarthol a chynhwysiant economaidd (Schildt, C., a Rubin, V., 2015) gan gynnwys yn y diwydiant creadigol (Turok, I., 2003). Gall darlledwyr hefyd hybu 'gwytnwch' diwylliannol o fewn cymunedau lleol ac adfywio ardaloedd gwledig (Roberts a Townsend, 2015).

Amlygodd ymgynghoriadau â rhanddeiliaid fod adleoli S4C i Sir Gaerfyrddin a'i buddsoddiad yn Ynys Môn (Stiwdio Aria) wedi bod yn gatalydd i gynyddu busnesau creadigol a chamau cynnar ar ffurfio clystyrau y tu allan i Gaerdydd. Dywedwyd bod y mentrau hyn wedi meithrin hyder ymhlith cwmnïau i sefydlu eu hunain y tu allan i brifddinas Cymru. Mae Carlam a Lens360 yn ddau gwmni o'r fath sydd wedi'u lleoli eu hunain yn yr Egin oherwydd presenoldeb S4C.

## Astudiaeth Achos Datblygu Clwstwr Lleol: Stiwdio Aria


Mae Stiwdio Ffilm Aria wedi'i lleoli ger Llangefni ac agorodd ei drysau'n swyddogol ym mis Hydref 2022. Mae gan Aria ddau lwyfan stiwdio eang sydd gyda'i gilydd yn cwmpasu 20,000 troedfedd sgwâr o ofod ffilmio gwrthsain.

Yn ogystal â'r cyfleusterau hyn, mae Aria yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau atodol, gan gynnwys swyddfeydd cynhyrchu, gweithdai pwrpasol ar gyfer adeiladu a storio setiau, a gwasanaethau sgowtio lleoliadau cynhwysfawr, a'r cyfan wedi'i ddylunio i fanteisio ar dirweddau trawiadol gogledd Cymru.

Mae bodolaeth y gofod newydd sbon hwn yn ddyledus i ymgyrch fuddsoddi gydweithredol sy'n cynnwys Rondo, Cymru Greadigol, ac S4C Masnachol. Mae'n chwarae rhan ganolog wrth gryfhau sector y cyfryngau annibynnol yng ngogledd-orllewin Cymru, gan ddarparu ar gyfer cynyrchiadau lleol a rhyngwladol. Fel canolbwynt ar gyfer meithrin talent a datblygu sgiliau, mae Stiwdio Ffilm Aria am fod yn creu cyfleoedd gwaith cynaliadwy o ansawdd uchel yn y gymuned leol gan gynnwys drwy Bariau (gweler yr Astudiaeth Achos ym Mhennod 6 isod).

Mae'r map cyniferydd lleoliad isod yn dangos crynodiad is-sector 'Ffilm, Teledu, Radio, a Cherddoriaeth' yng Nghymru. Mae Cyniferydd Lleoliad sy'n fwy nag un yn dangos arbenigedd neu glystyru rhanbarthol yn y diwydiant penodol hwnnw.[18] Mae'r crynodiad mwyaf o weithgarwch i'w weld yng Nghaerdydd, Caernarfon a Llanelli – sydd hefyd lle mae'r rhan fwyaf o gyflenwyr uniongyrchol S4C wedi'u lleoli.

**Ffigur 4.1: Cyniferydd Lleoliad ar sail Cyflogaeth ar gyfer is-sector 'Ffilm, Teledu, Radio, a Cherddoriaeth' yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol**




***Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill gan ddefnyddio Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023)***

[18] Mae'r Cyniferydd Lleoliad yn fesur sy'n cael ei ddefnyddio i fesur pa mor ddwys yw sector penodol mewn rhanbarth o gymharu ag ardal gyfeirio fwy (Prydain Fawr). Caiff ei gyfrifo trwy gymharu cyfran y diwydiant o gyflogaeth ranbarthol â chyfran y diwydiant o gyflogaeth genedlaethol.

## Hybu'r Celfyddydau a Chymunedau Lleol

Gall darllediadau S4C o ddigwyddiadau celfyddydol lleol (e.e. Lleisiau Eraill Aberteifi / Other Voices Aberteifi), perfformiadau (Lŵp), a hyd yn oed pêl-droed llawr gwlad gynnal a hybu diwylliant lleol (Diana A. S. et al, 2020; D.L.Y. Lopulalan et al, 2022), a chyfrannu at dwf a gwytnwch cymunedau lleol (Roberts a Townsend, 2015).

Mae ansawdd cynnwys S4C a ddaw o ffynonellau lleol yn golygu ei fod yn cystadlu â'r goreuon ym myd darlledu gan ennyn cydnabyddiaeth ryngwladol.[19] Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig, mae S4C a'i phartneriaid cynhyrchu wedi dod ag anrhydeddau i Gymru ar ffurf gwobrau mawr – Gwobr Ddarlledu i Drych: Fi, Rhyw ac Anabledd (Wildflame); a Gwobr Llais Newydd i gyfres Hansh, Tisho Fforc? (Afanti).

## Astudiaeth Achos Rhoi Llwyfan Ehangach i Dalent Gerddorol: Lŵp

Un o frandiau S4C yw Lŵp sy'n ymroddedig i arddangos talent gerddorol newydd a diwylliant cyfoes Cymru. Trwy raglenni fel Curadur ac Ar Dâp, a darllediadau o ddigwyddiadau cerddorol byw, mae Lŵp wedi gallu hybu, marchnata ac ehangu cyrhaeddiad bandiau yn y sîn gerddoriaeth Gymraeg. Yn ogystal, mae Lŵp yn cynhyrchu fideos cerddoriaeth i fandiau ac artistiaid o Gymru fel Sachasom, Parisa Fouladi, Y Cledrau, HMS Morris a Sage Todz, y cafodd ei fideo ar gyfer trac dril 'Rownd a Rownd' ei wylio dros 60,000 o weithiau.

Mae Lŵp nid yn unig yn darparu llwyfan i dalent gerddorol o Gymru ond mae'n eu meithrin trwy ganiatáu i gwmnïau, cyfarwyddwyr a staff mwy newydd ennill profiad o weithio ar brosiectau creadigol amrywiol a thymor byrrach. Mae busnesau cymharol newydd, fel y cwmni cynhyrchu o Gaerdydd, Orchard, wedi gallu datblygu ac uwchsgilio staff cyfarwyddo trwy eu gwaith ar fideos cerddoriaeth Lŵp a Curadur.

## Mewnfuddsoddiad ac Allforion

Mae ôl troed a dylanwad economaidd S4C yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau Cymru, ac er budd Cymru. Gall teledu gael ei ddefnyddio fel cyfrwng i arddangos diwylliant, treftadaeth a ffordd o fyw y wlad, a all ddylanwadu ar sut mae'r byd yn gweld y wlad a gyrru allforion diwylliannol (Diwydiannau Creadigol 2023, Diwydiannau Creadigol 2022).

Mae cyfraniad y darlledwr i ddiwydiant ffyniannus y cyfryngau yng Nghymru wedi bod yn allweddol wrth ddenu buddsoddiad domestig a rhyngwladol mewn sectorau cysylltiedig. At hynny, mae cynnwys S4C, sy'n cael ei ddosbarthu'n rhyngwladol, yn llwyfan i gyfryngau a chynnyrch creadigol Cymru, a thrwy hynny mae'n agor drysau i well cyfleoedd allforio.

---

[19] Datganiad i'r wasg: Hansh yn Ennill Gwobr yn y New Voice Awards

Mae datblygiadau technolegol hefyd wedi chwarae rhan wrth ehangu cyrhaeddiad S4C. Mae ap S4C Clic, sydd wedi ei ailddylunio i gyd-fynd â phen-blwydd S4C, bellach ar gael ar amrywiaeth eang o blatfformau gan gynnwys iOS, YouView, Freeview Play, ac Amazon Fire Stick. Mae'r ffaith bod yr ap ar gael ar nifer cynyddol o setiau teledu clyfar yn dyst i amlygrwydd cynyddol S4C yn y byd aml-blatfform.

Mae cynnwys S4C hefyd wedi cymryd camau breision sylweddol a digynsail mewn marchnadoedd rhyngwladol. Yn nodedig, gwnaeth Netflix brynu'r hawliau i'r addasiad drama o “Dal y Mellt”, y ddrama Gymraeg ei hiaith gyntaf ar y platfform hwn. Yn ogystal, gwnaeth “Y Golau”, cyd-gynhyrchiad gyda Channel 4, dderbyn clod rhyngwladol a dyma'r ddrama a wyliwyd fwyaf ar Channel 4 yn ystod ei chyfnod darlledu. Mae gweithiau fel Yr Amgueddfa a Gwledd hefyd wedi'u dosbarthu'n rhyngwladol, gan ddangos bod gan y ffordd y mae S4C yn adrodd storïau, sydd wedi'i gwreiddio yn niwylliant Cymru, apêl fyd-eang sy'n swyno cynulleidfaoedd ledled y byd. Yn fwyaf diweddar, mae S4C wedi partneru â Fubo a chwmni Ryan Reynolds, Maximum Effort, i lansio Welsh Wednesdays - i ddarparu mwy o gynnwys Cymraeg i America.

## Astudiaeth Achos Allforio Cynnwys: Am Dro!

Yn Am Dro!, a gynhyrchwyd gan Cardiff Productions, cawn weld pedwar sy'n hoff o gefn gwlad yn brwydro i gael eu hoff lwybr cerdded yng Nghymru wedi'i anfarwoli ymhlith Llwybrau Enwog S4C. Mae'r rhaglen yn gyfle i fwynhau tirweddau hardd Cymru yng nghwmni'r bobl sy'n fwyaf cyfarwydd â'r ardaloedd hyn ac yn eu caru fwyaf. Nid yn unig y mae'r rhaglen wedi tynnu sylw at gyrchfannau twristiaeth rhagorol ledled Cymru, ond mae'r fformat ei hun wedi'i werthu y tu allan i Gymru.

Ers ei lansio, mae fformat Am Dro! wedi ei werthu i chwe gwlad ar draws Ewrop, gan gynnwys Lloegr ar ffurf 'Take a Hike' a ddarlledwyd ar BBC Two. Mae Cardiff Productions bellach yn cynhyrchu Am Dro! a Take a Hike, gan ddangos rôl S4C wrth ehangu cyrhaeddiad rhaglenni Cymraeg a denu mwy o gyfleoedd i sector cynhyrchu'r cyfryngau yng Nghymru.

### Eiriolaeth a Lobïo dros y Sector

Mae S4C yn sefydliad blaenllaw sydd â llais sylweddol yn y sector creadigol a digidol. Gan fanteisio ar ei pherthynas unigryw â Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig, mae S4C yn eiriolwr dros y sector. Mae dylanwad cynyddol y sefydliad yn ei alluogi i fynd ati i hyrwyddo'r sector creadigol yng Nghymru, pwysleisio pwysigrwydd cyfryngau Cymru ac eirioli dros well amodau'r gweithlu, ymhlith mentrau eraill.

### Astudiaeth Achos Dylanwadu ar Bolisi: *Coalition for Change*

Mae *Coalition for Change*, a sefydlwyd yn 2020 gan y cynhyrchydd teledu llawrydd Adeel Amini, yn eirioli dros amodau gwaith gwell i weithwyr llawrydd yn y sector ffilm a theledu ym Mhrydain. Wedi'i adeiladu ar yr ethos y bydd y cynnwys creadigol gorau yn cael ei wneud gan ddiwydiant sy'n rhoi ei bobl yn gyntaf, mae'r Gynghrair yn ymgynnull i drafod a datrys ystod eang o faterion sy'n effeithio ar y gweithlu. Mae'r Gynghrair yn flaenorol wedi mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag arferion recriwtio, iechyd a diogelwch, diwylliant yn y gweithle, hil ac amrywiaeth, bwlio ac aflonyddu, hyfforddiant a dilyniant, iechyd meddwl a lles.

Yn 2022, ymunodd S4C â'r *Coalition for Change* yn swyddogol, ar yr un pryd ag ITV. Nododd Prif Swyddog Cynnwys S4C ar y pryd eu bod yn arbennig o awyddus i edrych ar ffyrdd i leihau'r ansicrwydd ym mhatrymau gwaith gweithwyr llawrydd. Mae S4C yn cefnogi nifer sylweddol o weithwyr llawrydd drwy'r gwaith y maent yn ei gomisiynu ac yn ymdrechu i wella eu hamodau gwaith drwy fabwysiadu Siarter Gweithwyr Llawrydd y Gynghrair[20]. Mae'r Siarter yn cyflwyno canllawiau ar agweddau fel recriwtio, diwylliant yn y gweithle, bwlio, oriau gwaith a hyfforddiant.

Yn ogystal, mae dealltwriaeth ac arbenigedd S4C yn amhrisiadwy wrth lunio rheoliadau'r cyfryngau sy'n cydweddu â thirwedd y sector sy'n datblygu'n gyflym. Mewn cydweithrediad â’r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, mae S4C yn cymryd rhan weithredol wrth lunio polisïau’r cyfryngau i’r dyfodol. Mae'r sefydliad yn canolbwyntio'n frwd ar Fil y Cyfryngau arfaethedig, sy'n ceisio moderneiddio cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein, darparu mwy o ryddid i gynhyrchu refeniw masnachol, a rhoi newidiadau llywodraethu ar waith.

## Hybu Talent a Datblygu Sgiliau

Mae'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol (2022-2025) yn cydnabod arwyddocâd y sector creadigol yng Nghymru, nid yn unig ar gyfer creu swyddi a thwf economaidd ond hefyd am ei bwysigrwydd diwylliannol a'i gyfraniad i hunaniaeth y genedl. Nod y cynllun hwn yw mynd i'r afael ag anghenion sgiliau tymor byr mewn sectorau blaenoriaeth fel cerddoriaeth, cynnwys digidol a sgrin, yn ogystal ag ystyried strategaethau hirdymor i sicrhau bod Cymru’n parhau i fod yn ganolbwynt creadigol ffyniannus. O ystyried rôl S4C fel y prif ddarparwr cynnwys teledu yng Nghymru, mae mewn sefyllfa dda i hybu talent a datblygu sgiliau yn y sector creadigol yng Nghymru.

[20] Coalition for Change, The Freelance Charter, 2021

## Datblygu'r Gweithlu

Fel darlledwr sydd ddim yn cynhyrchu'r rhan fwyaf o'i gynnwys, mae dull comisiynu S4C wedi grymuso ei phartneriaid cynnwys i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau staff. Roedd y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy yn amlygu bod dull gweithredu'r darlledwr yn creu cyfleoedd i fusnesau newydd a gweithwyr llawrydd adeiladu eu gallu, eu profiad a'u sgiliau, gan eu galluogi i ffynnu yn y wlad hon ac yn rhyngwladol. Mae hyn wedi cael ei ddangos gan straeon llwyddiant endidau amrywiol a aeth ymlaen i gyrraedd copaon uwch fel Stiwdios Seren a Severn Screen.

## Astudiaeth Achos Datblygu'r Gweithlu: TAC

Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) yw'r corff cynrychioliadol ar gyfer y sector cynhyrchu cyfryngau annibynnol Cymru. Yn rhinwedd y swyddogaeth hon, un o'i rolau yw cynnig datblygiad proffesiynol i'w aelodau. Fel un o'r prif gomisiynwyr cynnwys yng Nghymru, mae S4C yn chwarae rhan allweddol wrth lywio cyfeiriad eu darpariaeth hyfforddi drwy ariannu TAC i gynnig cyfleoedd hyfforddi penodol.

Trwy bartneriaeth hyfforddi TAC-S4C a sefydlwyd yn 2019, mae TAC wedi trefnu 100 o gyrsiau ar gyfer dros 1,400 o gyfranogwyr. Mae'r hyfforddiant yn amrywio o iechyd a diogelwch a rheolaeth i fylchau sgiliau mwy penodol y gallai S4C fod wedi'u nodi yn unol â'i hamcanion strategol. Yn ddiweddar gwnaeth S4C ariannu TAC i gynnig hyfforddiant i unigolion ddatblygu eu syniadau sgript yn gyflwyniadau ffurfiol.

Yn ystod 2022, darparodd y bartneriaeth hyfforddiant 17 o gyrsiau, a chofrestrodd 265 o unigolion i gymryd rhan. Ar gyfer blwyddyn galendr 2023 hyd at ddechrau mis Medi, cynhaliwyd 18 cwrs gyda 195 wedi cofrestru i gymryd rhan.

Yn fwyaf diweddar, mae S4C wedi ymuno â Chronfa Teledu Di-sgript Screenskills sy'n ceisio cryfhau sector creadigol y Deyrnas Unedig â thalent a sgiliau newydd ar y cyd â darlledwyr a ffrydwyr mawr eraill fel y BBC, Channel 4 a Netflix.

Yn ogystal, mae S4C yn cynnal mentrau hyfforddi a datblygu cynhwysfawr gyda'r nod o ehangu cyfleoedd i unigolion o gefndiroedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a gwella amrywiaeth y gweithlu. Caiff yr ymdrechion hyn eu cynnal mewn cydweithrediad â phartneriaid fel It's My Shout, Cynghrair Sgrin Cymru, Gyrfa Cymru, RAD Cymru Wales, ac ITV Cymru (Hansh Dim Sbin), fel sy'n cael ei drafod ym Mhennod 6.

Mae'r mentrau hyn nid yn unig yn cynnal gweithlu medrus iawn ond hefyd yn gwneud Cymru'n gyrchfan ddeniadol ar gyfer cynhyrchu ffilm a theledu yn fyd-eang.

## Entrepreneuriaeth, Prentisiaethau ac Interniaethau

Mae S4C yn gysylltydd, gan hwyluso partneriaethau strategol rhwng cyllidwyr, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr i gefnogi rhaglenni prentisiaethau. Mae'r ymgysylltiad hwn â chwmnïau cynhyrchu, sefydliadau'r cyfryngau a chyrff sector wedi arwain at greu prentisiaethau ac interniaethau sy'n darparu hyfforddiant amhrisiadwy yn y gwaith ac chyfleoedd i ymgyfarwyddo â'r diwydiant.

Mae darlledwyr yn bartneriaid hanfodol wrth hyrwyddo prentisiaethau, gan eu bod yn cynnig cyfleoedd amhrisiadwy i ddarpar weithwyr proffesiynol yn y cyfryngau ennill profiad ymarferol (Smith, 2020). Trwy brentisiaethau, gall unigolion ddysgu sut mae’r diwydiant yn gweithio, ennill sgiliau hanfodol, a chael mynediad at lwybr uniongyrchol at yrfaoedd ym maes darlledu, a thrwy hynny gyfrannu at gronfa dalent a chynaliadwyedd y diwydiant.

## Astudiaeth Achos Cynllun Prentisiaethau: Cynllun CRIW

Gan weithio mewn partneriaeth â Sgil Cymru, buddsoddodd S4C ar y cyd â Chymru Greadigol yng Nghynllun CRIW. Rhaglen brentisiaeth 12 mis yw CRIW sy'n cynnig profiad â thâl i bobl ifanc weithio y tu ôl i'r llen ar gynyrchiadau ffilm a theledu mawr. Nod hirdymor y cynllun yw hyfforddi unigolion a datblygu eu profiad ar gyfer gyrfa yn y sector. Mae'r cynllun wedi cynnig cyfleoedd i bobl yng ngogledd a de Cymru weithio ar gynyrchiadau fel Craith, Y Golau a War of the Worlds. Croesawyd ton newydd o bedwar prentis i'r cynllun yng ngogledd Cymru ym mis Awst 2023.

### Talent a Symudedd y Gweithlu

Mae S4C yn sefydliad canolog ar gyfer diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru a meithrin datblygiad economaidd trwy ddenu a chadw talent. Mae'r darlledwr yn chwarae rhan hanfodol wrth adeiladu sector creadigol cadarn yng Nghymru, a thrwy hynny greu tirlun hyfyw o gyflogaeth ar gyfer pobl greadigol a gweithwyr proffesiynol Cymraeg eu hiaith. Mae rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at sawl mantais o ddylanwad S4C, gan gynnwys:

- sefydlu Cymru fel canolfan hyfyw ar gyfer cyfleoedd a datblygu gyrfa, yn enwedig yn y diwydiant ffilm a chreadigol;
- denu ystod amrywiol o dalent drwy ei weithgareddau comisiynu, a thrwy hynny gyfoethogi gweithlu Cymru;
- cynnig cyfleoedd gwaith mewn ardaloedd sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys rhanbarthau economaidd ddifreintiedig yng nghefn gwlad gogledd a gorllewin Cymru;
- atal draen dawn neu golli sgiliau o gymunedau lleol a Chymru yn gyffredinol.

## Astudiaethau Achos Meithrin Talent Lleol: Pren ar y Bryn

Cyfres gomedi dywyll newydd yw Pren ar y Bryn, wedi'i ffilmio gefn wrth gefn yn y Gymraeg a'r Saesneg am gwpl yng nghefn gwlad Cymru sy'n canfod eu hunain yng nghanol dirgelwch ar ochr anghywir y gyfraith. Mae'r gyfres yn gyd-gynhyrchiad Fiction Factory gydag S4C, BBC Cymru ac All3Media.

Mae’r gwaith o ffilmio a chynhyrchu'r gyfres chwe rhan wedi'i leoli'n bennaf yn Ystradgynlais, lle magwyd awdur a chrëwr y rhaglen, Ed Thomas. Roedd y ffaith bod y rhan fwyaf o'r cynhyrchiad wedi’i leoli yn Ystradgynlais yn cynnig manteision sylweddol i'r gyfres a'r ardal leol. Ychydig iawn o sylw gafodd yr ardal hon o Gymru gan y cyfryngau, sy'n rhoi cefndir gweledol unigryw i gyfres Pren ar y Bryn a safbwynt unigryw ar ddiwylliant Cymru.

Yn ogystal, mae ffilmio yn yr ardal wedi bod o fudd i nifer o ddiwydiannau a busnesau ategol yn y gymuned gan gynnwys y rhai sy'n cyflenwi llety, bwyd a chludiant. Mae'r cwmni cynhyrchu yn amcangyfrif bod 90% o wariant y gyfres o fewn Cymru, wedi'i wasgaru ar draws Caerdydd ac Ystradgynlais. Roedd y cynhyrchiad hefyd yn cyflogi hyfforddeion i weithio ar draws amrywiaeth o rolau ac yn cynnig rolau cychwynnol dan hyfforddiant i bobl leol gan weithio ar adeiladu setiau.

## Twristiaeth a Hyrwyddo

Mae twristiaeth ddiwylliannol yn rhan bwysig o economi Cymru a chaiff ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru (Croeso Cymru, 2023). Cyn y pandemig, amcangyfrifwyd bod sector twristiaeth Cymru yn cyfrannu £2.4 biliwn yn uniongyrchol at gynnyrch domestig gros Cymru (tua 5% o'r cyfanswm) ac amcangyfrifwyd ei fod yn darparu 161,000 o swyddi (12.1% o'r holl gyflogaeth yng Nghymru) (Llywodraeth Cymru, 2022). Fodd bynnag, mae Cymru'n tanberfformio wrth ddenu ymwelwyr rhyngwladol o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig am nifer o resymau, gan gynnwys bod gan frand Cymru broffil isel dramor fel cyrchfan gwyliau (Pwyllgor Materion Cymreig, 2023).

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu nifer o fentrau i hyrwyddo twristiaeth ddiwylliannol yng Nghymru, gan gynnwys datblygu llwybrau diwylliannol, creu digwyddiadau a gwyliau diwylliannol, a darparu cyllid ar gyfer sefydliadau a phrosiectau diwylliannol (Croeso Cymru, 2023).

Mae S4C mewn sefyllfa dda i gyfrannu at yr amrywiaeth hon o weithgareddau diwylliannol yng Nghymru gyda'i darllediadau o wyliau a digwyddiadau diwylliannol (fel yr Eisteddfod) ac wrth hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ar gyfer twristiaeth ledled y byd. Fel cyfrwng sy'n dathlu diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru, mae S4C yn arddangos harddwch naturiol a chyfoeth diwylliannol y wlad. Trwy raglenni sy'n tynnu sylw at dirweddau trawiadol Cymru (Am Dro!), tirnodau hanesyddol, gwyliau, a thraddodiadau lleol, gall S4C ddenu cynulleidfaoedd domestig a rhyngwladol i ymweld â Chymru.

### Astudiaeth Achos Sylw Rhyngwladol: Cyngerdd Cymru i’r Byd

Wedi'i gyflwyno gan Ioan Gruffudd, roedd cyngerdd Cymru i'r Byd yn arddangosfa unigryw o ddiwylliant Cymru ar y sîn ryngwladol, gyda pherfformiadau gan rai o gerddorion enwocaf Cymru fel Bryn Terfel, Mared Williams, LEMFRECK, Sywel Nyw a Dionne Bennet.

O galon Efrog Newydd, roedd y cyngerdd yn caniatáu i S4C ddangos y cysylltiadau parhaus sydd rhwng Cymru ac Unol Daleithiau America, gan gyd-fynd â'r dathliadau cyn gêm agoriadol Cymru yng Nghwpan y Byd FIFA 2022. At hynny, roedd y digwyddiad yn talu teyrnged i gyfraniadau nodedig Rob McElhenny a Ryan Reynolds, sydd wedi chwarae rhan sylweddol wrth ddyrchafu proffil rhyngwladol Cymru trwy brynu Clwb Pêl-droed Wrecsam.

Roedd y digwyddiad yn elfen allweddol o gyfres o weithgareddau a noddwyd gan Lywodraeth Cymru, wrth i S4C, Cymdeithas Bêl-droed Cymru a darlledwyr a sefydliadau diwylliannol eraill uno ar gyfer ymgyrch 'Cymru i'r Byd'. Aeth yr ymgyrch ymlaen i ennill yng nghategorïau Grand Prix a Theithio a Thwristiaeth yng Ngwobrau Cyfryngau'r Byd 2023.

## Manteision i'r Sector Cyhoeddus

Fel y trafodwyd, mae S4C yn chwarae rhan hanfodol wrth hwyluso twf sector creadigol Cymru a'i chadwyni cyflenwi cysylltiedig. Trwy feithrin talent, uwchsgilio unigolion, a chreu swyddi a busnesau, mae S4C yn cyfrannu'n anuniongyrchol at refeniw treth i Lywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru, a thrwy hynny gynorthwyo darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r gwahanol lwybrau y mae S4C yn cyfrannu drwyddynt at gyllid cyhoeddus yn cynnwys:

- **Trethi Cyflogaeth**: gan gynnwys gweithwyr S4C a swyddi sy'n cael eu cefnogi ar hyd ei chadwyn gyflenwi (gan gynnwys gweithwyr llawrydd) yn cynhyrchu treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol - amcangyfrifir eu bod yn gyfanswm o £17.3m.
- **Trethi cyflenwyr a'r gadwyn gyflenwi**: Mae buddsoddiadau a gweithgareddau comisiynu S4C yn ysgogi gweithgarwch economaidd ymhlith ei chyflenwyr, cwmnïau cynhyrchu, a chadwyni cyflenwi anuniongyrchol sy'n arwain at gyfraniadau treth ychwanegol mewn TAW, treth gorfforaeth, ardrethi busnes a threthi eraill (h.y. trethi mewnforio) – amcangyfrifir eu bod wedi cynhyrchu £57.8m.
- **Gwariant Cyflogeion**: caiff incwm a enillwyd gan gyflogeion S4C a'r rhai ar hyd ei chadwyn gyflenwi ei wario ar nwyddau a gwasanaethau, sydd yn ei dro yn cyfrannu at economïau lleol ac yn cynhyrchu refeniw treth ychwanegol trwy TAW a threthi eraill sy'n seiliedig ar ddefnydd – amcangyfrifir eu bod yn gyfanswm o £15.7m.

**Amcangyfrifir bod gweithgareddau S4C yn 2022/23 wedi cynhyrchu cyfanswm o £90.8m mewn treth.[21] Mae hyn yn cyfateb i £1.02 o dreth yn cael ei ddychwelyd i'r Trysorlys ar ffurf trethiant uniongyrchol neu anuniongyrchol am bob £1 o incwm Ffi'r Drwydded a dderbyniwyd gan S4C yn 2022/23.** Mae hyn yn awgrymu bod cyfraniad cyllidol S4C nid yn unig yn cyfateb i'w hincwm o Ffi'r Drwydded ond hefyd yn cynhyrchu incwm ychwanegol i'r Llywodraeth, sydd yn ei dro yn atgyfnerthu economi ehangach y DU.

---

[21] Nid yw'r amcangyfrifon yn cynnwys treth gorfforaeth ac ardrethi busnes a dalwyd gan fusnesau a grëwyd / a gefnogwyd gan wariant cadwyn gyflenwi S4C.

# 5. Cyfraniadau S4C i'r Gymraeg

Cyn lansio S4C ym 1982, ysbeidiol oedd cynnwys teledu yn y Gymraeg a byddai'n aml yn cael ei ddarlledu ar adegau anghyfleus. Ers hynny, mae rhaglenni Cymraeg wedi cymryd camau breision ymlaen, gan gynyddu o 22 awr o deledu llinol pan ddechreuodd S4C, i 115 awr yr wythnos 40 mlynedd yn ddiweddarach, gyda llawer mwy o gynnwys hefyd ar gael ar blatfformau eraill. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae S4C wedi canolbwyntio ar gynyddu ei phresenoldeb ar-lein a chyflwyno S4C Clic i blatfformau newydd, darparu bocs sets i'w gwylio ar-alw, tyfu ei chynnwys ffurf fer a chanolig ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol fel TikTok a YouTube, a lansio gwasanaeth newyddion digidol Cymraeg newydd, i enwi ond ychydig o ddatblygiadau.

Mae S4C yn gwneud amrywiaeth o gyfraniadau allweddol i'r Gymraeg, gan gynnig ystod eang o raglenni, o newyddion ac adloniant i raglenni dogfen a dramâu, a'r cyfan yn cael eu darparu'n Gymraeg. Mae'r cynnwys sy'n cael ei gomisiynu gan S4C yn arddangos ac yn atgyfnerthu diwylliannau Cymru ac yn cefnogi siaradwyr Cymraeg newydd sy'n awyddus i ddysgu'r iaith. Yn ôl data a gasglwyd gan Beaufort Research, roedd 86% o wylwyr S4C sy'n siaradwyr Cymraeg yn teimlo bod S4C yn bwysig i'r Gymraeg a bod y Gymraeg yn cael ei chefnogi gan y cynnwys sy'n cael ei chomisiynu gan S4C.[22]

Yn hanesyddol, nid yw cyfraniad S4C i gefnogi'r Gymraeg wedi bod yn rhan benodol o'i chylch gwaith. Fodd bynnag, wrth gadarnhau setliad ariannol S4C o Ffi'r Drwydded am y cyfnod o 01 Ebrill 2022, roedd yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd yn cydnabod y cyfraniad allweddol y gall S4C ei wneud i gyflawni strategaeth Cymraeg 2050. Felly, mae S4C yn ddiweddar wedi chwarae rhan fwy gweithredol yn y gwaith o hybu a chefnogi'r Gymraeg drwy gyflogi Arweinydd Strategaeth y Gymraeg a fydd yn gweithredu'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng S4C a thîm Cymraeg 2050 yn Llywodraeth Cymru. Trwy ei chynnwys, mae S4C wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bawb fynediad i'r Gymraeg a'u bod yn teimlo y gallant ei defnyddio.

## Normaleiddio ac Adfywio'r Gymraeg

Mae sianeli teledu fel TG4 yn Iwerddon (Moriarty, 2009; Lysaght, 2009 a 2013), TV3 yng Nghatalwnia (Arana, Azpillage a Narbaiza, 2007), a Whakaata Maori yn Seland Newydd (Freeman-Tayler, 2014) wedi bod yn ganolog wrth normaleiddio ac adfywio ieithoedd lleiafrifol fel Gwyddeleg, Catalaneg (Webber, J a Strubell, M, 1991), a Māori. Mae'r astudiaethau hyn yn dangos y gall presenoldeb cynyddol yn y cyfryngau newid agweddau ieithyddol yn gadarnhaol, meithrin ymdeimlad o hunaniaeth, a gwella dealltwriaeth lafar.

[22]Arolwg Tracio Delwedd S4C 2022–23, Beaufort Research (2023)

Mae ymrwymiad S4C i ddarlledu yn Gymraeg yn cyfrannu'n sylweddol at barhad y defnydd o’r Gymraeg. Mae'n darparu llwyfan i siaradwyr Cymraeg, gan feithrin parhad a bywiogrwydd ieithyddol. [23] Yn benodol, mae gwasanaethau plant fel Cyw a Stwnsh, a chyfres newydd Cywion Bach – sydd o gymorth i drosglwyddiad iaith a siaradwyr newydd – yn cynnig cyfleoedd i wylio a mwynhau dysgu am y byd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dramâu i oedolion ifanc fel Itopia a Goleudy, wedi’u hariannu drwy Gronfa Cynnwys Cynulleidfaoedd Ifanc, hefyd yn cynnig rhywbeth newydd i gynulleidfa sy'n anodd ei chyrraedd yn Gymraeg.

Drwy gomisiynu cynnwys Cymraeg ar draws gwahanol genres, mae S4C yn ysgogi mynegiant creadigol yn y Gymraeg, gan gynorthwyo awduron, gwneuthurwyr ffilm, artistiaid a gweithwyr ar draws diwydiannau ategol i ennill bywoliaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn arolwg a gynhaliwyd ymhlith cyflenwyr uniongyrchol S4C, datgelwyd bod **sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol i 75% o'u gweithlu**, gan gynnwys cyflogeion amser llawn a gweithwyr llawrydd, er mwyn cyflawni eu rolau i'r darlledwr.[24]

Roedd y rhanddeiliaid a’r cwmnïau cynhyrchu a gyfwelwyd fel rhan o'r ymchwil hon yn unfrydol yn eu teimladau bod S4C yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'r Gymraeg. Pan ofynnwyd iddynt am ddatblygiadau neu gyfraniadau penodol a wnaed gan S4C yn fwy diweddar, nododd rhanddeiliaid fod S4C wedi gwneud cynnydd da yn eu portread o amrywiaeth y Gymraeg drwy amrywiaeth o ran acen a thafodiaith a rhaglenni wedi'u hanelu at ddysgwyr Cymraeg.

> Pan dwi'n meddwl am effaith S4C ar yr Gymraeg, bydden i wastad yn gofyn y cwestiwn "lle ydw i'n meddwl fyddai'r iaith heddiw pe na bai S4C yn bodoli?" **(Rhanddeiliad)**

Cyfeiriodd sawl rhanddeiliad hefyd at y rôl roedd Hansh a chynyrchiadau drama mwy newydd wedi'i chwarae wrth normaleiddio'r defnydd o gynnwys Cymraeg ymhlith cynulleidfaoedd iau ar blatfformau y maent yn fwy tebygol o'u defnyddio. Caiff y tystiolaethau hyn eu hategu gan ddata gwylwyr S4C sydd i’w weld yn eu hadroddiad blynyddol, a ganfu fod eu cyrhaeddiad wythnosol yng Nghymru rhwng Mawrth 2022 a 2023 wedi cynyddu 8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. At hynny, mae eu cyrhaeddiad ymhlith siaradwyr Cymraeg 14% yn uwch nag yr oedd y flwyddyn flaenorol, sy'n golygu mai dyma'r uchaf yn y pum mlynedd diwethaf.

[23] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, Creu S4C ar gyfer y dyfodol, 2017

[24] Noder bod yr amcangyfrif yn seiliedig ar ymatebion 30 o gyflenwyr, gyda thri ohonynt yn cyfrif am fwy na 30% o wariant S4C

# Eiriolaeth a Mentrau Cymraeg

Mae S4C yn chwarae rhan bwysig wrth ehangu cyrhaeddiad mentrau Cymraeg yn unol â'u strategaeth newydd o nodi'r gynulleidfa a chreu'r cynnwys cywir ar y platfform cywir i'r gynulleidfa honno. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys yr ystod eang o gynnwys gan eu brand Lŵp ar gyfer Dydd Miwsig Cymru a Heno, sy'n arddangos mentrau Cymraeg sydd wedi'u gwreiddio mewn cymunedau lleol fel Diwrnod Shwmae Su'mae. Drwy Hansh, mae S4C hefyd wedi chwarae rhan wrth dynnu sylw at sut mae'r Gymraeg yn croestorri â digwyddiadau fel Pride a Mis Hanes Pobl Ddu, gan arddangos sut mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu dathlu a'u coffáu yn Gymraeg.

### Astudiaeth Achos: Diben Cyffredin – Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chymraeg 2050

Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng S4C a Chymraeg 2050 a oedd yn amlinellu sut y byddai'r ddau sefydliad yn cydweithio i hyrwyddo'r Gymraeg. Roedd prif themâu'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn yn cynnwys:

- Adnoddau addysgol
- Cefnogi dysgwyr Cymraeg
- Datblygu naratif cadarnhaol o amgylch defnyddio'r Gymraeg
- Trosglwyddiad y Gymraeg rhwng y cenedlaethau
- Casglu ystadegau am y Gymraeg.

Mae S4C wedi ffurfio grŵp a fydd yn gweithredu'r ymrwymiadau yn y memorandwm cyd-ddealltwriaeth. Mae rhai o'r camau hyn yn cynnwys gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu cynnwys i gynorthwyo dysgu Cymraeg, cynorthwyo gwaith adnabod llais ac isdeitlo, gwella mynediad i gynnwys S4C at ddibenion addysgol a chodi proffil y Gymraeg yn rhyngwladol trwy eu cynnwys a chyfleoedd cydgynhyrchu pellach.

# Dysgu ac Addysgu’r Gymraeg

Un o nodweddion allweddol dull S4C o gefnogi'r Gymraeg yw ei rôl weithredol o ran cynorthwyo siaradwyr newydd a dysgwyr Cymraeg. Mae hyn wedi'i ymgorffori yn ei hymgyrch Cymraeg i Bawb sydd ar ddod. Gyda chymorth penodiadau newydd yn eu tîm cyhoeddi ac arweinydd Strategaeth y Gymraeg, nod ymgyrch Cymraeg i Bawb yw croesawu siaradwyr newydd i ymwneud ag S4C ar eu taith ddysgu trwy gynnwys sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr, mynediad haws i raglenni S4C yn fwy cyffredinol a phartneriaeth agosach â sefydliadau addysgol.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae S4C wedi comisiynu rhaglenni i annog pobl i ddysgu Cymraeg a dangos y teithiau amrywiol y mae pobl yn mynd arnynt i ddysgu’r Gymraeg a dychwelyd at yr iaith. Mae rhaglenni fel Iaith ar Daith a rhaglenni ar Cyw a Stwnsh yn darparu amgylchedd cadarnhaol i bobl o bob oed ddysgu’r Gymraeg. Gwnaeth yr actor Joanna Scanlon, a aeth yn ei blaen i serennu yn y ddrama 'Y Golau', ddechrau ar ei thaith i ddysgu Cymraeg ar Iaith ar Daith.

Mae yna gyfoeth o dystiolaeth sy'n cofnodi effeithiolrwydd teledu wrth addysgu sgiliau iaith i blant ysgol (Ahindal et al 2011, Uchikoshi 2014, Gowon 2009). Gwnaeth Prifysgol Bangor (2017) ganfod fod plant a fu'n gwylio Cyw, gwasanaeth S4C i blant, yn perfformio'n well mewn profion Cymraeg a bod ganddynt fwy o eirfa Gymraeg. Gwnaeth un arolwg ganfod hefyd bod 77% o wylwyr S4C yn fwy hyderus yn eu defnydd o'r Gymraeg oherwydd S4C.[25]

Mae mynediad i'r holl gynnwys Cymraeg wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae Clic, platfform ffrydio ac ar-alw S4C, yn darparu hidlwyr mwy hygyrch i ddysgwyr i ddod o hyd i raglenni addas sydd at eu dant, fel categori dysgwyr, gan ei gwneud yn haws dod o hyd i raglenni priodol. Yn ogystal â chefnogi pobl sy'n fyddar ac yn drwm eu clyw, mae isdeitlau Cymraeg a Saesneg yn adnodd gwerthfawr i siaradwyr newydd. Yn y flwyddyn flaenorol, roedd gan 46% o raglenni S4C isdeitlau Cymraeg, sy'n gynnydd o 21% o'r flwyddyn flaenorol. Roedd isdeitlau Saesneg ar gael ar gyfer 79% o'i rhaglenni (gan gynnwys rhaglenni byw), ymhell uwchlaw targed Ofcom o 53%.

### Astudiaeth Achos: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Wedi'i sefydlu yn 2016, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn chwarae rhan ganolog mewn addysg Gymraeg i oedolion trwy gynnig cyrsiau wedi'u teilwra, adnoddau, hyfforddiant tiwtor ac ymchwil. Mae ei chyfrifoldebau'n cynnwys sefydlu cyfeiriad strategol cenedlaethol, darparu arweinyddiaeth i ddarparwyr cyrsiau, codi safonau addysgu a dysgu, a saernïo cwricwlwm cenedlaethol o ansawdd uchel ynghyd â deunyddiau dysgu addas.

Mae'r berthynas rhwng y Ganolfan ac S4C wedi esblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn sgil penodi pennaeth Strategaeth y Gymraeg yn S4C, sydd wedi darparu sianel gyfathrebu uniongyrchol rhwng y ddau sefydliad. Mae hyn wedi arwain at ystyriaethau ynghylch defnydd cynyddol dysgwyr o gynnwys S4C, gan gynnwys archwilio archifau S4C i gyfoethogi deunyddiau dysgu Cymraeg. Caiff y cydweithio hwn ei yrru gan gydnabyddiaeth o rôl anhepgor S4C mewn dysgu a chadwraeth y Gymraeg.

## Dyrchafu'r Gymraeg i'r Llwyfan Byd-eang

Mae nodau strategol S4C ar gyfer 2022 i 2027 yn canolbwyntio ar ddatblygu i fod yn gyhoeddwr cyfryngau sy'n berthnasol yn rhyngwladol ac sy'n gallu cystadlu â'r garfan gynyddol o ddarlledwyr a phlatfformau ffrydio sy'n ceisio dal sylw cynulleidfaoedd.

Gall S4C briodoli llawer o'i llwyddiant rhyngwladol diweddar i'w dramâu o ansawdd uchel fel Dal y Mellt, Y Golau a Craith sydd wedi eu gwerthu a'u cyd-gynhyrchu gyda darlledwyr eraill fel y BBC a Channel 4 a'u gwerthu i wasanaethau ffrydio gan gynnwys Netflix i'w dangos ledled y byd.

[25] Arolwg Tracio Delwedd S4C 2022–23, Beaufort Research, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon S4C (2023)

Mae llwyddiannau chwaraeon rhyngwladol Cymru wedi rhoi cyfleoedd i S4C fanteisio arnynt. Yng Nghwpan y Byd FIFA 2022 a Chwpan Rygbi'r Byd 2023, bu S4C yn darlledu gemau a chyfweliadau â chwaraewyr yn Gymraeg, gan gynhyrchu twf aruthrol ymhlith cynulleidfaoedd a chyflawni ffigurau a dorrodd pob record o ran ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol. Bu S4C hefyd yn rhan o garreg filltir arwyddocaol i'r iaith, gan gyfweld â chwaraewyr yn y Gymraeg am y tro cyntaf erioed mewn cynhadledd i'r wasg yng Nghwpan y Byd FIFA. Roedd rhaglenni unigryw fel Cyngerdd Cymru i'r Byd, yn galluogi S4C i fanteisio ar lwyddiant chwaraeon i amlygu ystod ehangach o ddiwylliant Cymru.

## Astudiaeth Achos Cyrhaeddiad Rhyngwladol: Dal y Mellt

Mae drama drosedd Dal y Mellt yn addasiad o nofel gyntaf Iwan 'Iwcs' Roberts ac yn dilyn hanes Carbo, lleidr ceir ifanc, wrth iddo gael ei dynnu'n ddyfnach i'r isfyd troseddol. Wedi'i chynhyrchu gan Vox Pictures a'i ffilmio yng Nghaerdydd, Soho, Caergybi a Llantrisant, rhyddhawyd y rhaglen i ddechrau fel bocs set ar S4C Clic a BBC iPlayer ym mis Hydref 2022.

Cafodd Dal y Mellt sylw sylweddol yn 2023 pan gyhoeddwyd bod Abacus Media Rights wedi gwerthu'r drwydded ddarlledu i Netflix ym mis Ebrill 2023. Wedi'i rhyddhau ar y platfform fel "*Rough Cut*", saif Dal y Mellt ochr yn ochr â llwyddiannau byd-eang eraill o Gymru fel Y Gwyll (Hinterland) ac Y Golau (The Light in the Hallway), sydd hefyd wedi'u gwerthu yn rhyngwladol. Fodd bynnag, Dal y Mellt yw’r rhaglen gyfan gwbl Gymraeg gyntaf i gael ei phrynu gan Netflix.

Bydd ail gyfres o Dal y Mellt yn cael ei rhyddhau yn 2024, yn seiliedig ar ail nofel Iwan Roberts, 'Dal Arni', sydd i'w chyhoeddi gan Y Lolfa ym mis Tachwedd 2023. Mae llwyddiant rhyngwladol Dal y Mellt yn amlygu'r awydd a'r diddordeb byd-eang mewn cynnwys o Gymru, a chynnwys yn y Gymraeg yn benodol, a gallu S4C i'w ddarparu.

# 6. Ôl Troed Cymdeithasol ac Ehangach S4C

Dim ond un ochr i'r stori yw effaith economaidd S4C. Yn y bennod hon, trown i edrych ar y cyfraniadau cymdeithasol ac amgylcheddol, sydd yr un mor hanfodol, y mae S4C yn eu gwneud. Rydym yn llywio drwy themâu allweddol gan gynnwys ymgysylltu â’r gymuned a chydlyniant cymunedol, balchder a hunaniaeth, cydraddoldeb ac amrywiaeth, llesiant, ac ymrwymiad y sefydliad i gynaliadwyedd amgylcheddol. Gyda'i gilydd, mae'r themâu hyn yn creu darlun cynhwysfawr o effaith S4C ar y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu a'r amgylchedd y mae'n bodoli ynddo.

Wrth i ni archwilio pob thema, mae'n hanfodol cydnabod sut mae S4C yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, gan ddatgelu ei rôl ehangach yng Nghymru, ei chymunedau a'i chymdeithas. Mae'r diagram isod yn dangos y cysylltiadau rhwng y themâu cymdeithasol hyn a saith nod llesiant y Ddeddf.

- Ymgysylltu â’r Gymuned a Chydlyniant Cymunedol
- Hunaniaeth a Balchder Cymreig
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Ysbrydoli ac Addysgu
- Adloniant a Lles
- Amgylcheddol a Chynaliadwyedd




## Ymgysylltu â’r Gymuned a Chydlyniant Cymunedol

Mae'r cyfryngau annibynnol yn hybu democratiaeth trwy hysbysu dinasyddion, cynyddu eu gwybodaeth am faterion cyhoeddus, brocera deialog, a'u cynorthwyo i ddeall ei gilydd (UNESCO, 2023). Mae rhaglenni S4C yn aml yn mynd i'r afael â materion lleol, storïau cymunedol, a digwyddiadau, gan feithrin ymdeimlad o ymgysylltiad ac undod cymunedol. Gall hyn gyfrannu at gydlyniant cymdeithasol (Te Walvaart, M. et al, 2021) a naratifau cyffredin yng Nghymru.

Gall cynnwys a chyfryngau S4C yn ehangach ysgogi trafodaethau cymdeithasol pwysig, taflu goleuni ar faterion dybryd, ac annog trafodaeth gyhoeddus (Pasek, J et al., 2006):

- Ymgysylltu Dinesig: drwy raglenni newyddion a materion cyfoes, gall S4C feithrin ymgysylltiad dinesig, gan annog gwylwyr i fod yn gyfranogwyr gwybodus a gweithredol yn eu cymdeithas.

- Cysylltiadau sy’n Pontio'r Cenedlaethau: gall rhaglenni S4C helpu i gau bylchau rhwng y cenedlaethau, gan feithrin profiadau gwylio ar y cyd sy'n cryfhau cysylltiadau teuluol a chymunedol – fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol S4C roedd y gynulleidfa 16–44 oed y sefydliad ar ei huchaf ers degawd a’r gynulleidfa 45-64 oed ar ei huchaf ers 9 mlynedd.

## Astudiaeth Achos Ymgysylltu â'r Gymuned: Bariau

Caeodd ffatri brosesu ieir 2 Sisters yn Llangefni ei drysau yng ngwanwyn 2023 ar ôl bod yn gweithredu am bum degawd. Arweiniodd hyn at golli nifer fawr o swyddi mewn ardal lle mae dros 80% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Er gwaethaf ymdrech gydweithredol gan Lywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig a Chyngor Sir Ynys Môn i gefnogi gweithwyr yr effeithiwyd arnynt, caeodd y ffatri. Roedd modd i gynyrchiadau a gomisiynwyd gan S4C gamu i'r adwy a chefnogi rhai o'r sawl yr effeithiwyd arnynt yn sgil cau’r ffatri drwy roi cyfleoedd gwaith tymor byr a thymor hir iddynt.

Caiff bariau ei gynhyrchu yn Stiwdio Aria ger Llangefni a agorwyd yn ddiweddar gan Rondo, sydd hefyd yn cynhyrchu'r ddrama sebon lwyddiannus Rownd a Rownd. Cynigiwyd gwaith tymor hir i gyn-weithiwr 2 Sisters ar gynhyrchiad Bariau ac yn ddiweddarach ar Rownd a Rownd. Cyflogwyd 20 o gyn-weithwyr eraill 2 Sisters fel ecstras ar gyfres Bariau. Roedd buddsoddiad S4C yn yr ardal yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod aelodau o'r gymuned leol yn cael eu cynorthwyo wrth iddynt wynebu cyfnod economaidd heriol.

### Hyrwyddo Gwirfoddoli a Chynnwys y Gymuned

Gall S4C hyrwyddo ystod eang o gyfleoedd gwirfoddoli a chynnwys y gymuned naill ai trwy ehangu cyrhaeddiad y cyfleoedd hyn trwy ddarparu llwyfan trwy eu rhaglenni neu drwy eu cynorthwyo'n uniongyrchol â chyllid a phartneriaethau. Cyfeiriodd rhanddeiliaid a chwmnïau cynhyrchu at sut mae rhaglenni fel Heno yn chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo ac arddangos digwyddiadau mewn cymunedau lleol, gan wahodd gwylwyr i anfon clipiau byr i hyrwyddo digwyddiadau.

## Astudiaeth Achos Cynnwys y Gymuned: Gemau Stryd

Yn dilyn digwyddiad cyntaf llwyddiannus yn 2022, fe wnaeth Gemau Stryd yr Urdd 2023 adeiladu ar ei lwyddiant blaenorol drwy hyrwyddo chwaraeon fel BMX, Sglefrfyrddio, 3x3 a Phêl-fasged Cadair Olwyn, a Dawnsio Stryd yng nghanol Bae Caerdydd. Roedd y digwyddiad yn cynnwys parc sglefrio dros dro, gan ddenu’r goreuon yng nghampau BMX, Sglefrfyrddio, a Beicwyr Sgwteri, gan gynnig cyfleoedd cystadleuol a sesiynau blasu i bobl roi cynnig ar gampau’r stryd.

Denodd y digwyddiad dros 500 o gyfranogwyr a 5,000 o wylwyr byw o bob rhan o Gymru, gan ddangos gallu'r Urdd i ddarparu cyfleoedd unigryw i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg. Chwaraeodd S4C ran ganolog wrth ehangu cyrhaeddiad y digwyddiad drwy roi sylw i rai o'r digwyddiadau a'r cystadleuwyr yn ogystal ag arddangos y gerddoriaeth a’r adloniant a oedd yn rhan o’r gemau. Roedd y sylw yn helpu i ddangos pŵer chwaraeon i ymgysylltu â phobl ifanc ac uno cymunedau.

### Cefnogaeth i Sefydliadau Nid-er-elw

Mae sylw a llwyfan S4C wedi cael eu defnyddio i gefnogi sefydliadau nid-er-elw yn uniongyrchol ac i sicrhau bod gwylwyr yn ymwybodol o waith y sefydliadau ac yn gallu defnyddio eu gwasanaethau.

Drwy eu ffrydiau darlledu a chyfryngau cymdeithasol, mae'r rhaglen gylchgrawn amaethyddol Ffermio wedi rhoi llwyfan i'r gwaith a wneir gan Tir Dewi, llinell gymorth a gwasanaeth sy'n cefnogi ffermwyr Cymru wrth iddynt wynebu amrywiaeth eang o heriau modern gan gynnwys Brexit, iechyd, cynllunio olyniaeth a thywydd eithafol.

Mae S4C hefyd wedi cyfrannu'n ariannol at nifer o sefydliadau sy'n sbarduno effaith gymdeithasol gadarnhaol. Yn dilyn y Rhyfel yn Wcráin, cydlynodd S4C amryw ddigwyddiadau i godi arian ac ymwybyddiaeth ar gyfer Pwyllgor Argyfyngau Brys Cymru, gan arwain at ddarllediad o Gyngerdd Cymru ac Wcráin ym mis Ebrill 2022 gydag amryw artistiaid o Gymru ac Wcráin. Roedd S4C hefyd yn noddwr gorymdaith Pride Cymru, gan gyd-fynd ag ymrwymiad S4C i wella eu hamrywiaeth a chefnogi sefydliad sydd ar flaen y gad o ran ymgyrchu dros gydraddoldeb a threchu rhagfarn.

## Hunaniaeth a Balchder Cymreig

Mae S4C yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu ymdeimlad o hunaniaeth a balchder cenedlaethol drwy roi llwyfan i ddiwylliant, cyflawniadau a thalent Cymru. Mae strategaeth S4C wedi rhoi ffocws o'r newydd ar ehangu ei hapêl a sicrhau bod ei chynnwys a'r iaith Gymraeg yn hygyrch i bawb a bod yn fwy cynrychioliadol o Gymru gyfan.

Mae gwaith ymchwil a wnaed gan Davies (2020) a McElroy (2008) ill dau yn amlygu'r rôl y mae cyfryngau ieithoedd lleiafrifol (ac S4C yn arbennig) yn ei chwarae yn natblygiad ymdeimlad plant o hunaniaeth bersonol drwy roi mynediad iddynt i "stori am yr hunan" sy'n atgyfnerthu ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig a'r gymuned genedlaethol. At hynny, gwnaeth adolygiad annibynnol o S4C ganfod bod 84% o wylwyr S4C yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y darlledwr yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad hunaniaeth Gymreig a diwylliant Cymru.[26]

Nododd rhanddeiliaid sut y gall cyfraniadau economaidd S4C arwain at ymdeimlad o falchder lleol a lle drwy greu swyddi lleol drwy gyfrwng y Gymraeg. O ran rhaglenni, roedd rhanddeiliaid a chwmnïau cynhyrchu yn teimlo bod y ddwy elfen sy'n cyfrannu fwyaf at hunaniaeth a balchder cenedlaethol yn dod o sylw S4C i chwaraeon a'r Eisteddfod, gan gynnig golwg gadarnhaol ar ddiwylliant Cymru a'i chyflawniadau ym myd y campau.

[26] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon S4C (2023)

### Astudiaeth Achos Hunaniaeth a Balchder: Taith Cymru yng Nghwpan y Byd 2022

Roedd y ffaith i Gymru ddychwelyd i Gwpan y Byd yn 2022, ar ôl absenoldeb o 64 mlynedd, yn fwy na champ chwaraeon. Roedd yn gyfle unigryw i arddangos diwylliant a threftadaeth Cymru ar y llwyfan byd-eang. Yn nodedig, daeth y Gymraeg i fwy o amlygrwydd yn ystod Cwpan y Byd trwy ganeuon fel Yma o Hyd a chyfweliadau â chwaraewyr fel Ben Davies. Gwnaeth S4C, mewn partneriaeth â Chymdeithas Bêl-droed Cymru, yr Urdd, a darlledwyr eraill, chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o amlygu’r safbwynt Cymreig yng Nghwpan y Byd.

Fel rhan o ddathliadau Cwpan y Byd 2022, roedd y digwyddiad “Jambori”, a drefnwyd mewn cydweithrediad â'r Urdd, yn rhoi cyfle i blant ysgol ledled Cymru ddod at ei gilydd a chefnogi'r tîm cenedlaethol. Roedd yn foment hanesyddol gyda thros chwarter miliwn o blant yn cydganu i ddathlu’r ffaith bod Cymru wedi cymhwyso ar gyfer Cwpan y Byd.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Fel yr amlygwyd yn eu hadroddiad blynyddol, un o flaenoriaethau strategol S4C am y pum mlynedd nesaf yw cryfhau ei chynrychiolaeth a'i chynhwysiant drwy sicrhau bod pob cymuned yng Nghymru yn teimlo eu bod yn cael eu hadlewyrchu yng nghynnwys S4C. Mae S4C hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod yr amrywiaeth hon yn cael ei hadlewyrchu yn y gweithlu sy'n cynhyrchu ei chynnwys drwy weithio gyda chwmnïau cynhyrchu a phartneriaid i ddenu talent newydd i'r sector.

Yn ystod blwyddyn adrodd 2022/23, mae S4C wedi parhau i weithio gyda phartneriaid fel It's My Shout, Cynghrair Sgrin Cymru, ITV Cymru (Dim Sbin) a Gyrfa Cymru i hybu amrywiaeth y gweithlu. Mae'r darlledwr hefyd wedi bod yn rhan o beilot RAD Cymru Wales wedi'i anelu at unigolion o gefndiroedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r partneriaethau hyn wedi rhoi'r modd i dalentau newydd ddatblygu eu sgiliau drwy gyflwyno cynigion a chynhyrchu cynnwys i S4C a darlledwyr eraill, gan gryfhau'r llif o sgiliau, cefndiroedd a phrofiadau newydd ac amrywiol sy'n ymuno â'r sector creadigol yng Nghymru.

Nododd rhanddeiliaid fod rhaglennu diweddar fel Drych: Fi, Rhyw ac Anabledd, a enillodd Wobr Ddarlledu fawr, a'r gyfres diweddaraf o Craith, lle bu S4C yn gweithio mewn partneriaeth â'r cwmni theatr anabledd Hijinx, wedi chwarae rhan gref yn y gwaith o wella cynrychiolaeth S4C o bobl anabl ar y sgrin. Yn 2023, comisiynodd S4C lechen o gynnwys i gyd-fynd â Mis Hanes Anabledd. Ar hyn o bryd mae S4C hefyd yn rhagori ar dargedau Ofcom ar gyfer rhaglenni wedi’u sain ddisgrifio a’u harwyddo. Yn ychwanegol at hynny, gwnaeth S4C noddi Pride Cymru yn 2022 a 2023 ac mae wedi cynhyrchu amrywiaeth o raglenni ffeithiol ac adloniant fel Ffyrnig, Trawsnewid Bywyd ac Y Label L.

Yn 2022/23, roedd 62% o wylwyr S4C sy'n siaradwyr Cymraeg yn teimlo bod y darlledwr yn llwyddo i adlewyrchu amrywiaeth y bobl sy'n byw yng Nghymru o ran oedran, rhywedd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd ac ethnigrwydd. Mae'r ffigur hwn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (59%), gan adlewyrchu teimladau rhanddeiliaid bod S4C yn symud i'r cyfeiriad cywir ond yn dal i fod â chynnydd i'w wneud o ran amrywiaeth a chynhwysiant.[27]

### Astudiaeth Achos Olrhain Cynnydd: Prosiect Diamond

Mae strategaeth newydd S4C yn ymrwymo i wella amrywiaeth yn y cyfryngau Cymraeg, ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, drwy ei gweithgareddau comisiynu. Un o'r camau cadarnhaol y mae S4C wedi'u cymryd i'r cyfeiriad hwn yw partneru â'r Rhwydwaith Amrywiaeth Greadigol drwy ymuno â Diamond, prosiect sy'n monitro amrywiaeth ledled y diwydiant.

Roedd adroddiad diweddaraf Diamond yn cynrychioli data a gasglwyd o 1.1 miliwn o gyfraniadau gan unigolion sy'n gweithio ar gynnwys teledu yn y DU. Caiff data ei gasglu ar rywedd, hil, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran, sy'n cael ei groesdablu â darlledwyr a genres rhaglenni i fonitro amrywiaeth ar y sgrin ac oddi ar y sgrin. Bydd adroddiad nesaf Diamond yn cynnwys y cyfraniadau data cyntaf a wnaed gan unigolion sy'n gweithio ar gynyrchiadau S4C, gan roi llinell sylfaen iddynt i wella ohoni.

# Ysbrydoli ac Addysgu

Tri diben craidd cynnwys S4C yw addysgu, ysbrydoli a chynnig dihangfa, y mae'n eu cyflawni trwy eu hehangder o raglenni, gan gwmpasu dramâu, sioeau plant, chwaraeon a ffeithiol. Mae S4C yn cynhyrchu ystod eang o ddeunyddiau addysgol ar gyfer pob lefel i gyd-fynd â'u cynnwys. Mae'r darlledwr a'r cwmnïau cynhyrchu y mae'n eu comisiynu hefyd yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi, ysbrydoli ac addysgu cymunedau ledled Cymru.

## Partneriaethau Addysgol a Chydweithio

Mae S4C wedi rhoi ffocws o'r newydd ar addysg a dysgu gydol oes yn eu strategaeth newydd, gan ymrwymo i ddull mwy cyfannol a bwriadol wrth gomisiynu a darparu cynnwys addysgol. Er bod S4C yn darparu cynnwys addysgol ei hun drwy Cyw, ei gwasanaeth cyn-ysgol, a Dysgu Cymraeg, ei darpariaeth i siaradwyr Cymraeg newydd, mae'r darlledwr yn awyddus i wneud y gorau o'i effaith addysgol drwy bartneru ag addysgwyr.

Mae partneriaeth S4C â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn parhau i gryfhau, sy'n golygu bod darpariaeth rhaglenni ar gyfer siaradwyr Cymraeg newydd a dysgwyr Cymraeg yn gwella (gweler Pennod 5). Mae S4C hefyd yn cydweithio â'r Coleg Cymraeg drwy eu galluogi i gynnal rhaglenni S4C wedi'u harchifo ar ei lyfrgell adnoddau: Y Llyfrgell Adnoddau.

[27] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon S4C (2023)

## Astudiaeth Achos Archif Addysgol: Hwb

Hwb yw platfform dysgu ar-lein dwyieithog Llywodraeth Cymru sy'n darparu gwasanaethau digidol i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae Hwb yn darparu adnoddau a deunyddiau i ddysgwyr ac athrawon sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru. Fel rhan o waith Llywodraeth Cymru i ehangu'r adnoddau sydd ar gael drwy Hwb, mae wedi partneru ag S4C a CBAC i lansio sianel ffrydio S4C.

Mae'r sianel yn cynnal dros 80 awr o raglenni S4C ar Hwb sydd wedi'u hanelu at ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Mae S4C yn bwriadu parhau i uwchlwytho rhaglenni i wasanaeth ffrydio Hwb, gan ehangu'r cynnwys sydd ar gael i ddysgwyr yn y dyfodol.

### Ysbrydoli


Trwy amlygu pobl i gynnwys diwylliannol, creadigol ac addysgol drwy eu rhaglenni yn ogystal â chomisiynu cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu ledled Cymru gyfan, mae S4C yn chwarae rhan allweddol wrth ysbrydoli pobl i ymwneud â gwead diwylliannol Cymru a chyfrannu ato.

Roedd llawer o randdeiliaid yn teimlo bod S4C wedi chwarae rhan gref wrth ysbrydoli pobl ifanc yn benodol, gan hybu balchder drwy ddarlledu digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol a thrwy amlygu pobl ifanc i'r sector creadigol trwy gynyrchiadau a ffilmiwyd yn lleol. Cyfeiriodd sawl rhanddeiliad hefyd at ddarllediad S4C o Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol fel ffyrdd i arddangos sut mae'r sector creadigol yn gweithio i bobl ifanc.

> "Eisteddfod yr Urdd yn aml yw'r lle cyntaf y mae cyfle i bobl ifanc berfformio, mae'n werthfawr iawn eu bod nhw'n cael y llwyfan yna a'r lefel yna o sylw." **(Rhanddeiliad)**

Mae Hansh yn gwahodd ac yn cynorthwyo cynnwys newydd ar gyfer ei blatfform, gan greu llwybrau mynediad newydd i bobl yn y sector creadigol. Drwy Hansh, mae S4C hefyd wedi partneru â sefydliadau fel It's My Shout i gynyddu nifer y cyfleoedd i ymuno â'r sector creadigol, gan gynorthwyo 80 o bobl y llynedd i gynhyrchu cynnwys Hansh.

## Astudiaeth Achos: Ffilmio'n Lleol - Rondo




Gyda swyddfeydd yng Nghaernarfon, Caerdydd a Phorthaethwy, Rondo yw un o gynhyrchwyr cynnwys mwyaf S4C. Mae cynhyrchu cynnwys blaenllaw ar gyfer S4C fel Sgorio, Dechrau Canu Dechrau Canmol, Cynefin a Rownd a Rownd yn caniatáu i Rondo wneud cyfraniadau sylweddol i gymunedau lleol drwy ehangu sylw i ddigwyddiadau, cymunedau a gemau chwaraeon lleol ac ysbrydoli ac addysgu pobl drwy weithdai a sesiynau am eu rhaglenni.  Yn ystod 2022 a 2023, gwnaeth Rondo ffilmio cynnwys ar gyfer Sgorio, Cynefin a Dechrau Canu Dechrau Canmol mewn mwy na 40 o drefi a dinasoedd yng Nghymru, gan ddefnyddio gweithwyr llawrydd, arlwywyr a darparwyr llety lleol yn aml – gweler y map cyfagos. Yn achos Rownd a Rownd, mae Rondo hefyd wedi cynnal gweithdai actio, sgriptio a chynhyrchu teledu mewn ysgolion, prifysgolion, theatrau a chanolfannau cymunedol eraill gyda dros 500 o gyfranogwyr rhwng Tachwedd 2022 a Mawrth 2023. Gwnaeth Rondo hefyd gynnal sesiwn ym Maes D yr Eisteddfod Genedlaethol yn seiliedig ar ei raglen, Stori'r Iaith, lle roedd un o'r cyflwynwyr, Sean Fletcher, yn annog y cyfranogwyr i ymwneud â hanes y Gymraeg gan ddefnyddio adnoddau addysgol newydd a grëwyd ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac Atebol.

# Adloniant a Lles

Gall darlledu yn y gymuned gael effaith gadarnhaol ar gyflwr iechyd meddwl ei gynulleidfaoedd (Meadows a Foxwell, 2011). Mae darlledwyr yn gwneud cyfraniad mawr at reoli iechyd meddwl cymunedol trwy rymuso cynulleidfaoedd i ddeall a rheoli materion sy'n effeithio ar eu lles emosiynol a chymdeithasol yn well.

## Astudiaeth Achos: Rhoi Sylw i Iechyd Meddwl Plant - Bex

Wedi'i darlledu gan S4C ym mis Mawrth 2022, mae Bex yn gyfres wyth rhan sydd wedi torri tir newydd wrth drafod problemau iechyd meddwl a'u heffaith ar blant a'u teuluoedd. Mae pob pennod yn mynd i'r afael â gwahanol faterion iechyd meddwl fel Anhwylder Gorfodaeth Obsesiynol, Pyliau o Banig, Ffobia, Dysmorffia’r Corff a Thrawma yn sgil colli aelod o'r teulu.

Mae'r gyfres wedi cael ei chanmol am agor y drafodaeth ynghylch materion iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc a'u harfogi â'r offer a'r iaith i allu trafod y materion hyn gydag eraill. Daeth hyn yn fwyfwy pwysig yn sgil pandemig Covid-19 a arweiniodd at gynnydd sylweddol mewn materion sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ymhlith plant yn enwedig. Cafodd y gyfres ei dewis i’r rhestr fer yn y categori plant yng Ngwobrau BAFTA Cymru.

Gall rhai rhaglenni, fel y rhai sy'n canolbwyntio ar les, hunanofal, neu ymwybyddiaeth iechyd meddwl, gyfrannu'n gadarnhaol at iechyd meddwl gwylwyr. Mae S4C hefyd yn rhoi sylw i amrywiaeth o faterion iechyd meddwl a chorfforol drwy ei rhaglenni (yn fwyaf diweddar yn Bex a Drych a oedd yn ymchwilio i sut y gallai hunaniaeth Gymreig ddylanwadu ar ein hiechyd meddwl). Caiff adnoddau pellach eu darparu i gynorthwyo gwylwyr sy'n cael eu heffeithio gan y materion dan sylw neu sy'n dewis deall mwy amdanynt. Mae cyngor ar gael ar dudalennau cymorth gwefan S4C ynghylch ystod eang o faterion, yn ogystal â dolenni i adnoddau allanol. Mae enghreifftiau'n cynnwys adnoddau ar sbeicio, bwlio, iselder, canser, iechyd rhywiol a defnyddio alcohol a chyffuriau.

### Astudiaeth Achos: Ffit Cymru

Yn 2022 rhyddhawyd cyfres arall o'r rhaglen trawsnewid iechyd, Ffit Cymru. Mae'r gyfres newydd yn dilyn pum arweinydd arall wrth iddynt gychwyn ar ddeufis o daith yn dilyn cynlluniau iechyd wedi'u gosod gan yr hyfforddwr personol, Rae Carpenter, y seicolegydd, Dr Ioan Rees, a'r arbenigwr bwyd, Beca Lyne-Pirkis.

Gan gyd-fynd â ffocws strategol S4C ar gynnwys amlgyfrwng, gall y gwylwyr ddilyn y cynlluniau iechyd a roddwyd ar waith ar gyfer pob un o'r arweinwyr drwy wefan Ffit Cymru. Gallant hefyd fanteisio ar y cyngor ffitrwydd corfforol cyffredinol a'r ryseitiau sy'n rhan o gynlluniau'r arweinwyr.

# Amgylcheddol a Chynaliadwyedd

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r sector cynhyrchu teledu ehangach ym Mhrydain wedi cryfhau ei ymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol trwy weithredu targedau lleihau allyriadau ac ymuno â phartneriaethau fel yr un â Chonsortiwm BAFTA Albert i gydweithio ar arferion cynaliadwy. Mae S4C yn symud gyda'r sector ehangach, gan gymryd camau cadarnhaol i ddechrau mynd i'r afael â'r materion hyn. Yn fwyaf diweddar, daeth yn un o ddeuddeg darlledwr a gwasanaeth ffrydio i lofnodi Addewid Cynnwys Hinsawdd Albert yn 2021.

## Buddsoddi mewn Cyfrifoldeb a Chynaliadwyedd Corfforaethol

Mae S4C wedi gosod y sylfeini ar gyfer gwerthuso ei hymdrechion o ran cynaliadwyedd corfforaethol trwy lunio adroddiad cynaliadwyedd blynyddol, a chyhoeddwyd yr ail o'r rhain ar gyfer blwyddyn adrodd 2022/23. Mae adleoli ei phencadlys i'r Egin, adeilad a gyflawnodd dystysgrif BREEAM Ardderchog ar gyfer cynaliadwyedd, a chydleoli ei gweithrediadau technoleg darlledu gyda BBC Cymru yn ei hadeilad yn y Sgwâr Canolog wedi lleihau defnydd S4C o ynni a'i hallyriadau.

Fel llawer o sefydliadau, mae S4C wedi gweithredu mesurau i leihau teithio diangen a chynyddu'r defnydd o fideogynadledda ynghyd ag annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus gymaint â phosibl. Yn 2022/23, daeth 100% o'r trydan a ddefnyddiwyd gan S4C yn yr Egin o ffynonellau adnewyddadwy, i fyny o 88% yn y flwyddyn flaenorol.

Cynyddodd allyriadau cyffredinol S4C yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, dylid cofio bod cyfyngiadau cenedlaethol o ran gweithio gartref yn parhau i fod ar waith ar ddechrau blwyddyn adrodd 2021/22, felly blwyddyn 2022/23 yw'r meincnod 'busnes fel arfer' cyntaf y gall S4C wella ohono.

## Cydweithio a Mentrau

Nid yw S4C yn cynhyrchu ei chynnwys darlledu, ond mae'n dal i wneud cynnydd o ran gwella cynaliadwyedd amgylcheddol ei chynnwys. Gwnaed un o ddatblygiadau diweddar S4C ym mis Ionawr 2022 drwy weithio mewn partneriaeth â Chonsortiwm BAFTA Albert, consortiwm o fusnesau ffilm a theledu sy'n ceisio lleihau effeithiau amgylcheddol cynhyrchu, a chreu cynnwys sy'n cefnogi gweledigaeth ar gyfer dyfodol cynaliadwy.

Ers mis Ionawr 2022, mae wedi bod yn orfodol i gyfresi cymwys a gomisiynwyd gan S4C ymwneud â Chonsortiwm BAFTA Albert.[28] Mae'r broses yn cynnwys defnyddio cyfrifiannell ôl troed carbon Albert. Caiff y cynyrchiadau hefyd eu hannog i gwblhau proses ardystio Albert. Mae'r broses hon yn cynnwys cael eich paru ag aelod o dîm Albert yn BAFTA, a fydd yn cynnig cyfres o argymhellion i'r cynhyrchiad i leihau ei effaith amgylcheddol. Mae argymhellion blaenorol wedi cynnwys defnyddio generaduron nad ydynt yn defnyddio disel a goleuadau ar set sy'n fwy effeithlon o ran ynni, defnyddio dulliau teithio carbon isel, a chymryd rhan yng nghynllun gwrthbwyso sector creadigol Albert.

Yn ystod 2022/23, roedd 92% o gynyrchiadau S4C yn cydymffurfio â'r gofynion a nodwyd gan Gonsortiwm BAFTA Albert, canlyniad a oedd yn is na'r hyn a ragwelwyd oherwydd nifer fawr o ddarllediadau chwaraeon yn ystod y cyfnod adrodd[29].

## Astudiaeth Achos Cydweithio: Albert, Boom ac S4C

Boom Cymru yw un o'r cynhyrchwyr teledu mwyaf yng Nghymru sy'n gwneud cannoedd o oriau o gynnwys ar gyfer S4C, BBC Cymru ac ITV Cymru bob blwyddyn. Mae'r cwmni wedi cydweithio'n agos â Chonsortiwm BAFTA Albert am fwy na phedair blynedd i wella cynaliadwyedd eu cynyrchiadau. Felly, pan ymunodd S4C yn ffurfiol mewn partneriaeth ag Albert, roedd eu perthynas gref yn golygu eu bod yn gallu rhannu arferion da yn effeithiol, rhoi lle canolog i gynaliadwyedd, annog eraill i gefnogi'r ymdrechion, a dylanwadu'n gadarnhaol ar eu rhwydweithiau ac, yn ehangach, y sectorau a'r is-sectorau y mae'r ddau sefydliad yn gweithio gyda nhw.

Mae holl raglenni Boom Cymru ar gyfer S4C wedi'u hardystio gan Albert ers 2019, ar ôl gwneud amrywiaeth o newidiadau i'w cynyrchiadau i wella cynaliadwyedd. Drwy ddrafftio 'memos gwyrdd' ar ddechrau unrhyw broses gynhyrchu, gall Boom ymgorffori ymagwedd unigryw at gynaliadwyedd ar gyfer pob cynhyrchiad, fel defnyddio stiwdio ynni adnewyddadwy ar gyfer Ahoi a Byd Tad-cu neu ddefnyddio generaduron tanwydd di-ffosil ac olew llysiau gwastraff ar set ar gyfer eu darllediad o Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru.

---

[28] Mae'n ofynnol i gynyrchiadau sy'n cael eu comisiynu gan S4C weithio gyda Thîm BAFTA Albert os yw'r gyfres gyfan dros 15 munud o hyd a bod ganddi gyllideb o fwy na £50,000.
[29] S4C, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, 2023

Trwy eu cysylltiadau agos ag S4C, mae esiampl gref Boom wedi cael ei lledaenu'n ehangach i'r sector cynhyrchu teledu yng Nghymru. Mae S4C mewn sefyllfa i gynghori cynyrchiadau ar ffyrdd y gallant wella eu cynaliadwyedd, fel llogi criw lleol i leihau teithio, defnyddio arlwywyr ag ardystiad Albert ar set, pweru camerâu a meicroffonau â batris y gellir eu hailwefru, a phartneru ag elusennau a all ddefnyddio hen bropiau ac offer.

## Rhaglennu ac Addysg

Yn ogystal â gwella cynaliadwyedd amgylcheddol cynyrchiadau sy’n cael eu comisiynu, mae partneriaeth S4C â Chonsortiwm BAFTA Albert a'i hymrwymiad i'r Addewid Cynnwys Hinsawdd yn sicrhau bod cynnwys yn chwarae rhan addysgol drwy godi ymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud â'r hinsawdd, dangos ymddygiad cadarnhaol ar y sgrin a gwella llythrennedd hinsawdd cynulleidfaoedd. [30]

Gall comisiynwyr, cynhyrchwyr a staff dderbyn hyfforddiant am ddim yn ychwanegol at eu cyfrifiadau ôl troed carbon gofynnol, gan gwmpasu pynciau fel gwella cynaliadwyedd o fewn cynyrchiadau newyddion, adloniant a chwaraeon, yn ogystal â hyfforddiant ar sut i gyfleu newid yn yr hinsawdd yn well mewn rhaglenni ffeithiol ac anffeithiol.

Fel comisiynydd y cyfryngau, mae'r egwyddorion hyn ar eu hamlycaf yn S4C trwy eu sylw cynyddol i faterion yn ymwneud â'r hinsawdd ar raglenni fel Newyddion S4C a Pawb a'i Farn, yn ogystal â rhaglenni ffeithiol newydd sy'n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd fel 'Colli Cymru i'r Môr', sy'n ymchwilio i effaith newid hinsawdd a llifogydd ar Gymru. Mae trafodaethau pellach ar faterion yn ymwneud â'r hinsawdd i'w cael ar draws genres eraill, fel cerbydau trydan yn Pobol y Cwm a hybu bioamrywiaeth ar y gyfres arddio, Garddio a Mwy.

[30] Consortiwm BAFTA Albert, Addewid Cynnwys Hinsawdd

# Atodiad A: Geirfa

- **Cyfwerth ag amser llawn (FTE) –** mesur o gyflogaeth fel bod modd cymharu’n well rhwng gwaith rhan-amser, amser llawn a llawrydd.
- **Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) –** mesur o gynhyrchiant economaidd sy'n mesur cyfraniad asiant economaidd (e.e. cwmni, unigolyn, rhanbarth). Caiff ei fesur trwy gymryd gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau sydd wedi'u cynhyrchu mewn punnoedd (£), a thynnu costau mewnbynnau a deunyddiau y gellir eu priodoli i'w cynhyrchu.
- **Cyniferydd Lleoliad –** mesur sy’n cael ei ddefnyddio i fesur pa mor ddwys yw sector penodol mewn rhanbarth o gymharu ag ardal gyfeirio fwy (Prydain Fawr). Caiff ei gyfrifo trwy gymharu cyfran y diwydiant o gyflogaeth ranbarthol â chyfran y diwydiant o gyflogaeth genedlaethol.
- **Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol –** ardal ddaearyddol o fewn awdurdodau lleol wedi’i diffinio gan ystadegau'r cyfrifiad. Maent yn cynnwys rhwng 2,000 a 6,000 o aelwydydd ac mae ganddynt boblogaeth breswyl arferol rhwng 5,000 a 15,000 o bobl.
- **Lluosydd –** ffactor sy'n ceisio cipio'r incwm ychwanegol a gynhyrchir o ganlyniad i rywfaint o wariant cychwynnol. Yn achos S4C, mae eu gwariant uniongyrchol mewn llawer o achosion yn mynd i gwmnïau cynhyrchu a fydd yn gwario'r arian eto ar eu staff a'u cyflenwyr eu hunain. Mae'r lluosydd yn ceisio mesur y gwariant ychwanegol hwn a ddigwyddodd o ganlyniad i'r gwariant cychwynnol. Mae lluosydd gwerth ychwanegol gros a chyflogaeth o'r tablau mewnbwn allbwn yn dilyn yr un cysyniad, sef ei fod yn gymhareb o'r gwerth ychwanegol gros ychwanegol neu effaith cyflogaeth o'r effaith gwerth ychwanegol gros neu gyflogaeth uniongyrchol cychwynnol.

# Atodiad B: Cyfeiriadau


Advanced Television (2023). S4C International sales partnership with Axiom Media. Ar gael fan yma: S4C International sales partnership with Axiom Media | Advanced Television (advanced-television.com)

Ahinda, A. A., Murundu, Z. O., Okwara, M. O., Odongo, B. C., a Okutoyi, J. (2011). Effects of television on academic performance and language acquisition of pre-school children.

AMARC (2014) Radio Broadcasting in Regional or Minority Languages, adroddiad cynhadledd. Ar gael fan yma: AMARC-2014-Promoting-minority-languages-through-community-media-1.pdf (cuacfm.org)

Arana, E., Azpillage, P., a Narbaiza, B. In Cormack, M. J., & Hourigan, N. (2007). Minority language media: concepts, critiques and case studies. Chapter 9: Linguistic Normalisation and Local Television in the Basque Country.

Bangor University (2017), Exploring minority language input sources as means of supporting the early development of second language vocabulary and grammar, 2011-2015. Ar gael fan yma: https://www.cambridge.org/core/journals/applied-psycholinguistics/article/exploring-minority-language-inputsources-as-means-of-supporting-the-early-development-of-second-language-vocabulary-and-grammar/FE8145EF906B547A53127874FCB42D95

BFC (2022) Inward investment spend on Film and High-End TV in the UK tops £4.713 billion in 2021. Ar gael fan yma: Inward investment spend on Film and High-End TV in the UK tops £4.713 billion in 2021 – British Film Commission

Blake, G, Diamond, J, Foot, J, Gidley, B, Mayo, M, Shukra, K, Yarnit, M. (2008). Community Engagement and Community Cohesion. JRF. Ar gael fan yma: Community Engagement and community cohesion | JRF

Busnes Cymru (2023). S4C. Ar gael fan yma: S4C | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru)

Creative Industries Council (2022) CITIB Case: Film & TV. Ar gael fan yma: https://www.thecreativeindustries.co.uk/exports/2022-citib-case-inward-investment

Creative Industries Council (2023) TV & Film: Why The UK? Ar gael fan yma: TV & Film: Why the UK? - The Creative Industries

Croeso Cymru (2023) Culture. Ar gael yn: Cultural activities, attractions and events in Wales | Croeso Cymru

Cymru Greadigol (2022), Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol 2022-2025, ar gael fan yma: https://www.cymrugreadigol.cymru/sites/creative/files/2022-09/WG45909%20Skills%20Action%20Plan%20W_WG.pdf

D. L. Y. Lopulalan, S Salakay, Y Sopacua, R Alfredo (2022). Constructing Community Identity and Local Wisdom Content in Regional TV Stations Digital Broadcasting. KOMUNIKA: Jurnal Dakwah dan Komunikasi 16 (2), 173-182

Davies, H. (2020). The role of minority-language media in the construction of identity during middle childhood. Studies in Communication and Culture. 11. tt. 343-359

Diana Anggraeni, Sarwititi Sarwoprasodjo, Amiruddin Saleh, ac Andi Faisal Bakti. (2020). PRESERVING LOCAL CULTURAL ARTS THROUGH A COMMUNITY RADIO WITH SOCIAL AND BEHAVIOR CHANGE COMMUNICATION. PalArch's Journal of Archaeology of Egypt / Egyptology, 17(4), 571-593. https://doi.org/10.48080/jae.v17i4.393 (Cyhoeddwyd y gwaith gwreiddiol ar 17 Tachwedd, 2020)

Ferreira, M. P., Serra, F. R., Costa, B. K., Maccari, E. A., a Couto, H. R. (2012). Impact of the Types of Clusters on the Innovation Output and the Appropriation of Rents from Innovation. Journal of Technology Management & Innovation, 7(4). https://doi.org/10.4067/S0718-27242012000400006

Freeman-Tayler, K. (2014). Understanding the Māori Television Service's Policy and Legislation: The First Ten Years. Mynediad Agored Te Herenga Waka-Victoria University of Wellington. Thesis. https://doi.org/10.26686/wgtn.17008123.v1

Gowon, R. P. (2009). Effects of television and radio on speaking and writing skills of senior secondary school students in Jos metropolis. African research review, 3(2).

Lee, N. (2014). The creative industries and urban economic growth in the UK. Environment and Planning A, 46(2), 455-470.

Lysaght, R. (2009). Language image in national minority language television idents. TG4 (Teilifis na Gaeilge, Ireland) and Whakaata Maori (Maori Television, New Zealand). Estudios Irlandeses - Journal of Irish Studies, (4), 45+. https://link.gale.com/apps/doc/A197991024/AONE?u=googlescholar&sid=bookmark-AONE&xid=f6a3cb9b

Lysaght, R. (2013). Dramatising identity on Irish language television: Aifric (TG4). Estudios Irlandeses - Journal of Irish Studies, (8), 43+. https://link.gale.com/apps/doc/A336176163/LitRC?u=googlescholar&sid=bookmark-LitRC&xid=187d1b06

Llywodraeth Cymru (2022), Proffil Economi Ymwelwyr Cymru: 2021, ar gael fan yma: https://www.llyw.cymru/proffil-economi-ymwelwyr-cymru-2021-html

McElroy, R. (2008). Indigenous Minority-Language Media: S4C, Cultural Identity, and the Welsh-language Televisual Community. Global Indigenous Media. tt.232-249

Moriarty, M. (2009). Normalising language through television: the case of the Irish language television channel, TG4. Journal of Multicultural Discourses, 4, 137 - 149.

Mustafa, S (2022) What are the Health Effects of Watching Television? Ar gael fan yma: What are the Health Effects of Watching Television? (news-medical.net)

OFCOM (2015) Public Service Broadcasting in the Internet Age: Ofcom's Third Review of Public Service Broadcasting. Ar gael fan yma: Consultation (ofcom.org.uk)

OFCOM (2021) Equity, diversity and inclusion in TV and radio.  Ar gael fan yma: Report: Equity, diversity and inclusion in TV and radio – Ofcom

OFCOM (2022) Equity, diversity and inclusion in television and radio: 2021-22 Report on eight of the largest UK broadcasters.  Ar gael fan yma: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0029/246854/2021-22-report-diversity-in-tv-and-radio.pdf

Pasek, J., Kenski, K., Romer, D., a Jamieson, K. H. (2006). America's Youth and Community Engagement: How Use of Mass Media Is Related to Civic Activity and Political Awareness in 14- to 22-Year-Olds. Communication Research, 33(3), 115-135. https://doi.org/10.1177/0093650206287073

Pwyllgor Materion Cymreig (2023), Wales as a global tourist destination - Fourth Report of Session 2022–23, ar gael fan yma: https://publications.parliament.uk/pa/cm5803/cmselect/cmwelaf/220/report.html#:~:text=Tourism%20makes%20a%20significant%20contribution,of%20all%20employment%20in%20Wales)

Roberts, E., a Townsend, L. (2016). The contribution of the creative economy to the resilience of rural communities: exploring cultural and digital capital. Sociologia Ruralis, 56(2), 197-219.

Schildt, C., a Rubin, V. (2015). Leveraging anchor institutions for economic inclusion. Oakland: PolicyLink.

Te Walvaart, M., Dhoest, A., a Van den Bulck, H. (2021). Production Perspectives on Audience Engagement: Community Building for Current Affairs Television. Michigan Journal of Community Service Learning, 6(1). https://dx.doi.org/10.3998/MIJ.15031809.0006.103

Turok, I (2003) Cities, Clusters and Creative Industries: The Case of Film and Television in Scotland, European Planning Studies, 11:5, 549-565, DOI: 10.1080/09654310303652

Tŷ'r Arglwyddi (2022). Arts and creative industries: The case for a strategy, ar gael fan yma: https://lordslibrary.parliament.uk/arts-and-creative-industries-the-case-for-a-strategy/

Uchikoshi, Y. (2014). Effects of television on language and literacy development. In Multimedia and literacy development (pp. 182-195). Routledge.

UNESCO (2020) Learning through radio and television in the time of COVID-19.  Ar gael fan yma: https://www.unesco.org/en/articles/learning-through-radio-and-television-time-covid-19

UNESCO (2023) Media pluralism and diversity.  Ar gael fan yma https://www.unesco.org/en/media-pluralism-diversity?hub=748

UNIDO (2023).  What are clusters and networks?  Ar gael fan yma: Clusters and networks development | UNIDO

UNIDO (2023).  What are clusters and networks?  Available at Clusters and networks development | UNIDO

Verduyn, M (2023).  What Is Talent Mobility and How HR Can Develop a Winning Strategy? Ar gael fan yma: What Is Talent Mobility and How to Develop a Strategy - AIHR

Webber, J., a Strubell, M. (1991). The Catalan Language: Progress towards normalisation.

Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (2019). DCMS: Single Departmental Plan – 2019, ar gael fan yma: https://www.gov.uk/government/publications/department-for-digital-culture-media-and-sport-single-departmental-plan/dcms-single-departmental-plan-2019

Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (2022).  Up next - the government's vision for the broadcasting sector.  Ar gael fan yma: Up next - the Government's vision for the broadcasting sector - GOV.UK (www.gov.uk)

# Atodiad C: Crynodeb o’r Ymgyngoreion

Dros 13 cyfweliad, ymgynghorwyd â 22 unigolyn o’r sefydliadau canlynol fel rhan o'r asesiad economaidd a chymdeithasol o weithgareddau S4C yn 2022/23:

- Dau unigolyn o S4C.
- Wyth unigolyn yn cynrychioli cwmnïau cynhyrchu Cymraeg annibynnol sy’n creu cynnyrch i S4C.
- Wyth unigolyn o sefydliadau Lywodraeth, y trydydd sector ac academaidd gyda diddordeb sydd strategol yng ngweithgareddau S4C.
- Pedwar unigolyn o ddarlledwyr arall sy’n creu cynnyrch i S4C.

# Atodiad D: Dulliau Asesu’r Effaith

Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd yn yr asesiad hwn o’r effaith economaidd yn safonol ar gyfer y math hwn o asesiad ac fe’u llywiwyd gan yr egwyddorion sydd wedi’u nodi yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF. Penderfynwyd ar y dull gweithredu yn seiliedig ar gwmpas yr astudiaeth, ansawdd data economaidd ac argaeledd ac amserlen ond yn bennaf defnyddiwyd:

- **Tablau Mewnbwn Allbwn Cenedlaethol Llywodraethau’r Deyrnas Unedig a’r Alban, y Swyddfa Ystadegau Gwladol** – sy'n rhoi cipolwg ar economi a llif nwyddau a gwasanaethau rhwng gwahanol sectorau. Mae'r tablau yn galluogi defnyddwyr i amcangyfrif mewn modd cyson yr effeithiau lluosydd llawn (gwerth ychwanegol gros, cyflogaeth) sy'n deillio o newid mewn allbwn/galw yn unrhyw un o'r sectorau hyn.
- **Canllawiau Cyflym Diwydiant** – lle nad yw gwybodaeth ar gael a/neu lle mae data arolwg yn gyfyngedig, rydym wedi pwyso ar feincnodau'r diwydiant i wneud yn iawn am hynny.

Cafodd y fethodoleg a'r allbynnau eu hadolygu gan ymgynghorydd allanol sy'n arbenigo mewn llunio a defnyddio tablau mewnbwn allbwn.

## Ardal yr Effaith

Mae'r asesiad yn canolbwyntio ar y cyfraniad economaidd y mae S4C yn ei wneud i economïau Sir Gaerfyrddin, Cymru a'r Deyrnas Unedig.

## Mesurau o Fudd Economaidd

### Gwerth Uniongyrchol S4C

Gan bwyso ar ganllawiau o Lyfr Glas Cyfrifon Gwladol y Deyrnas Unedig 2022 a Methodoleg Fanwl yn Atodiad D, mae'r adroddiad hwn yn amcangyfrif effaith economaidd uniongyrchol S4C gan ddefnyddio'r dull incwm:

$$\begin{aligned} &Gwerth\ Ychwanegol\ Gros \\ &\qquad = Elw/Colled\ Gweithredol\ (cyn\ treth) +\ Costau\ Cyflogeion \\ &\qquad +\ Dibrisiant\ +\ Amorteiddiad) \end{aligned}$$

Yn ystod cyfnod asesu 2022/23, adroddodd S4C golled gweithredol o £5.0m.[31] Yn dilyn adolygiad gan gymheiriaid, o ystyried cynaliadwyedd ariannol y sefydliad cyn y pandemig, penderfynwyd y byddai rhagdybiaeth o adennill costau yn synhwyrol. Barnwyd y byddai wedi bod yn deg tybio na fyddai S4C wedi cael effaith negyddol ar economi Cymru.

## Gwariant S4C a'i Chadwyn Gyflenwi (neu Effaith Anuniongyrchol)

Roedd data gwariant cyflenwyr a rannwyd gan S4C yn cynnwys gwariant fesul cyflenwr, eu cod post, disgrifiad a rhif cwmni lle'r oedd ar gael. Defnyddiwyd rhif y cwmni i bennu cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol dau ddigid y cyflenwr (ac felly'r diwydiant y mae'n gweithredu ynddo) i gyd-fynd â phroffiliau'r sector o fewn y modelau mewnbwn allbwn. Lle nad oedd rhif y cwmni ar gael, defnyddiwyd gwefannau a chategori gwariant fel dangosyddion ar gyfer diwydiant y cyflenwr, a phennwyd Dosbarthiad Diwydiannol Safonol. I benderfynu ar effaith anuniongyrchol neu effaith y gadwyn gyflenwi:

1. Cafodd y gwariant ei drosi i werth ychwanegol gros gan ddefnyddio'r gymhareb berthnasol rhwng trosiant y sector a gwerth ychwanegol gros o Arolwg Blynyddol o Fusnesau 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - lle'r oedd data ar lefel ranbarthol neu god Dosbarthiad Diwydiannol Safonol wedi'i hepgor, defnyddiwyd cymarebau'r blynyddoedd blaenorol neu ar lefel genedlaethol.
    - Oherwydd bod 80% o wariant cadwyn gyflenwi S4C ar fusnesau sy'n gweithredu yn is-sector 'Ffilm, Teledu, Fideo, Radio, a Cherddoriaeth' (Dosbarthiad Diwydiannol Safonol 59 a 60), mabwysiadwyd cyfartaledd aml-flwyddyn o'r gymhareb i gyfrif am effeithiau'r pandemig ar y sector.
2. Yna defnyddiwyd lluosyddion gwerth ychwanegol gros a chyflogaeth math I o dablau mewnbwn allbwn y Deyrnas Unedig i amcangyfrif effaith economaidd gwariant cadwyn gyflenwi S4C.

## Effaith Cyflogau (Ysgogol)

Mae'r astudiaeth wedi ceisio deall effaith cyflogau S4C a gweithwyr ei chadwyn gyflenwi gan gynnwys gweithwyr llawrydd.

- **Cyflogeion S4C** – Roedd Datganiad Cyfrifon S4C yn cyflwyno cyflogau net cyflogeion a addaswyd yn ôl y gyfradd arbedion cyfartalog yn y Deyrnas Unedig (y Swyddfa Ystadegau Gwladol) i amcangyfrif incwm gwario. Yna defnyddiwyd tabl mewnbwn allbwn y Deyrnas Unedig, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, i bennu gwariant diwydiant gan aelwydydd, ac o hyn cyfrifwyd cyfanswm yr effaith gwerth ychwanegol gros a chyflogaeth.[32]
- **Cadwyn Gyflenwi** - defnyddiwyd lluosyddion gwerth ychwanegol gros math II a chyflogaeth a ddeilliwyd o Dablau Mewnbwn Allbwn Llywodraeth yr Alban.

[31] Mae'n bwysig nodi bod gwargedion a diffygion ariannol S4C yn cael eu trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol. O'r herwydd, fel corfforaeth anariannol, nid yw'n gwneud elw na cholled. Felly er mwyn adlewyrchu gwerth ychwanegol y sianel, diffinnir ei effaith uniongyrchol fel ei incwm gweithredu gros cyn ei drosglwyddo i'r gronfa gyffredinol.
[32] https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/timeseries/dgd8/ukea

- **Gweithwyr llawrydd** - darparwyd arolwg i gyflenwyr S4C i gasglu gwybodaeth am weithwyr llawrydd a ddefnyddiwyd ganddynt. Yna defnyddiwyd cyflog cyfartalog y diwydiant ar gyfer gweithiwr llawrydd sy'n gweithio yng Nghymru i bennu cyfanswm cyflog. Yna cyfrifwyd treth a chynilion er mwyn amcangyfrif cyfanswm incwm gwario'r gweithwyr llawrydd. Yna defnyddiwyd tabl mewnbwn allbwn y Deyrnas Unedig, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, i bennu gwariant diwydiant aelwydydd, ac o hyn cyfrifwyd cyfanswm effaith gwerth ychwanegol gros a chyflogaeth.

### Effaith Ymwelwyr

Cafwyd amcangyfrif o ymwelwyr â'r Egin ar gyfer gweithgareddau S4C (ffilmio, cleientiaid ac ymweliadau safle) gan y ganolfan ac S4C. Defnyddiwyd ffigurau cyfartalog gwariant undydd i gyfrifo cyfanswm gwariant ymwelwyr.[33] Yna defnyddiwyd tablau mewnbwn allbwn yr Alban i ddeall gwariant twristiaeth yn ôl diwydiant ac o hyn cyfrifwyd cyfanswm effaith gwerth ychwanegol gros a chyflogaeth gan ymwelwyr.

## Cyfyngiadau Allweddol y Dull Gweithredu

Mae'n bwysig cydnabod bod ystod o gyfyngiadau o ran cynnal asesiad effaith o'r math hwn, y mae angen ei gadw mewn cof wrth ystyried canfyddiadau'r asesiad.

- **Cymarebau Trosiant i Werth Ychwanegol Gros, yr Arolwg Blynyddol o Fusnesau, y Swyddfa Ystadegau Gwladol** – roedd Dosbarthiad Diwydiannol Safonol 59 a 60 yng Nghymru yn ystod 2021 yn anarferol o isel, yn debygol o fod wedi'i ddylanwadu gan y pandemig. Er mwyn rhoi cynrychiolaeth gywirach o werth y sector, defnyddiwyd cyfartaledd o'r cymarebau hyn ar draws sawl blwyddyn (lle y maent ar gael) yn dilyn adolygiad gan gymheiriaid.
- **Tablau Mewnbwn Allbwn Cymru** – yn 2007 y cyhoeddwyd y tablau Mewnbwn Allbwn diweddaraf sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer economi Cymru. Wrth gadw at safonau'r diwydiant, gwnaethom ddefnyddio tablau Mewnbwn Allbwn Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a'r Alban, sy'n cynnwys data hyd at 2019. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod y dull hwn yn tybio bod perthnasoedd sectoraidd yn y DU a'r Alban yn debyg i'r rhai yng Nghymru ac mai o 2019 y daw'r data mewnbwn allbwn diweddaraf.

  Mae'n werth nodi bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu diweddariad o dablau mewnbwn allbwn yn benodol ar gyfer Cymru sydd i'w rhyddhau ganol 2024. O ganlyniad, bydd unrhyw asesiadau o'r effaith economaidd ar S4C yn y dyfodol yn defnyddio data mwy cywir ac wedi'i deilwra sy'n benodol i economi Cymru. Gallai hyn arwain at newidiadau sylweddol yn yr allbynnau a'r canfyddiadau yn y dyfodol.
- **Gweithwyr llawrydd** – mae asesu effaith economaidd gweithwyr llawrydd yn cyflwyno heriau unigryw, yn deillio'n bennaf o'r diffyg ystadegau swyddogol sy'n

[33] https://www.llyw.cymru/ystadegau-twristiaeth-ddomestig-prydain-fawr-teithiau-undydd-yng-nghymru-2022-html

mesur eu cyfraniadau yn uniongyrchol ac yn gyson. Mae'r heriau hyn yn cynnwys natur amrywiol gwasanaethau llawrydd, anawsterau wrth gategoreiddio, a chyfyngiadau wrth gasglu data cywir. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, ceisiodd ein hastudiaeth fesur effeithiau economaidd gweithwyr llawrydd trwy eu gwariant o fewn yr economi leol.

Er mwyn pennu maint y gweithlu o weithwyr llawrydd sy'n cynhyrchu cynnwys a gefnogir gan S4C, gwnaethom gynnal arolwg ar-lein wedi'i ategu gan ymgynghoriadau dros y ffôn. Roedd yr arolwg yn gwahodd holl gyflenwyr S4C sy'n derbyn mwy na £10,000 i ymateb. O'r 88 a ymatebodd, roedd 11 yn gyflenwyr sy'n cynhyrchu cynnwys. Ar lefel hyder o 90%, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y gallai data a gynhyrchir o'r arolwg amrywio hyd at 24% i'r naill gyfeiriad neu'r llall ar gyfer y boblogaeth gyfan.

- **Dull methodolegol** – wrth ddatblygu'r astudiaeth hon, fe wnaethom adolygu'r methodolegau a ddefnyddiwyd mewn asesiadau effaith economaidd blaenorol o weithgareddau S4C. Fodd bynnag, gwnaethom ddewis dull methodolegol gwahanol, gan gyd-fynd ag arferion a geir mewn adroddiadau tebyg (gan gynnwys asesiad KPMG o'r BBC).[34] Gwnaed y penderfyniad hwn i sicrhau tryloywder a sicrhau bod modd ailadrodd y fethodoleg mewn comisiynau yn y dyfodol. O ganlyniad, nid oes modd cymharu canlyniadau'r adroddiad hwn yn uniongyrchol â chanlyniadau adroddiadau blaenorol.

Mae'r cyfyngiadau allweddol hyn yn pwysleisio cymhlethdodau cynnal asesiad cynhwysfawr o effaith, a dylid eu hystyried wrth ddehongli'r canlyniadau sy’n cael eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn.

[34] KPMG - An Assessment of the Economic Impact of the BBC: A report for the BBC for Financial Year 2019/20 (Mawrth 2021)

Cysylltu â ni

0330 122 8658

wavehill@wavehill.com

wavehill.com

Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol

@wavehilltweets

wavehill